"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

# YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] MEHEFIN, 1876. [RHIF 40.

## CYNNWYSIAD.

TUD.
Dywedyd "Na" ..... 73
Athrawiaeth Ysgrythyrol Gweithredoedd Da ..... 77
Duw: Uwchlaw, Islaw, Oddiamgylch, ac Oddifewn ..... 82
Yr Aifft a Chanaan ..... 84
Cyfarfod Chwarterol y Pasg ..... 88
Adolygiad y Wasg ..... 93
Coleg Caerfyrddin ..... 94
Llusern Traed ..... 94
Y Ffordd i gael Cwsg ..... 94
Marwgofion ..... 95
Barddoniaeth ..... 96

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:
ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, 16, COMMERCIAL-PLACE.

YR

# YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] MEHEFIN, 1876. [RHIF. 40.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

## DYWEDYD "NA."

YR wyf yn cofio bod yn bresenol mewn cyfarfod ymresymu rhyw flwyddyn neu ddwy yn ol, pan yr oedd dan sylw y pwnc yma:—"Y Pwys o ddywedyd 'Na' pan fo eisiau."

Dan lawer o amgylchiadau mae dywedyd Na yn beth rhwydd ddigon; ond y mae'r gallu i ddywedyd y "Na pan fo eisieu" yn derchafu ei berchenog uwchlaw y *common run* o ddynion. Yn fynych nid yw y Na ond arwydd o wendid truenus, arwydd o ddiffyg dysgyblaeth ac o benrhyddid. Yn yr ystori, ystori Tommi a Harri, mae'r bachgen a ddywedai "Na na i" yn myned i ddrwg ac yn marw yn druenus. A phan y mae "Na na i" yn arwydd o anufudd-dod yn unig, megys anufudd-dod plentyn i'w rieni, nid oes dim llawer o ddaioni i'w ddysgwyl. O'r tu arall, lle mae "Na na i" yn cael ei osod yn y ffrynt fel amddiffynydd i gymmeriad da, ac fel atalydd rhag cyflawniadau annheilwng, gallwn edrych arno fel yr angel da sydd yn gwylied ar y cyfryw gymmeriad. "Peidiwch bod mor galed," meddai un o'r boneddigesau *free and easy* yma un diwrnod wrth ei gweinidog, yr hwn oedd yn arfer traethu ei len ar brydiau yn y fath fodd ag i beri anesmwythder i'r rhai a wrandawent arno. "Byddwch yn fwy cynnil," meddai hi. "Na na i," meddai yntau. "Wyddoch chwi beth ddaeth o 'Na na i'?" meddai hithau drachefn. "Gwn," meddai yntau, "bu farw ar y groes." Y mae dywedyd Na dan rai amgylchiadau yn ddyledswydd arbenig sydd yn gorphwys arnom nad beth fo'r canlyniad. "Dywedwch," meddai Mr. Herbert wrth James Harragan, "pwy a ysgrifenodd y llythyr bygythiol at eich cymmydog, yr ydych yn gwybod o'r goreu." "Na na i," meddai yntau, "a ydych yn meddwl y

trof yn *informer?* Fu neb sydd yn perthyn i mi yn *informer* erioed. Na na i, na na i." Cyn hir cafodd mab-yn-nghyfraith (bwriadedig) Harragan lythyr bygythiol, a Harragan ei hunan ofid dibendraw. Nid yn anfynych y mae "Na na i" yn profi ei berthynas â Nana Sahib.

Y mae Terence, y bardd Rhufeinig, yn dodi un o'i *garacters* i lefaru fel yma:—"Oes rhywun yn dywedyd Na? Yr wyf finau yn dywedyd Na. Oes rhywun yn dywedyd Ie? Yr wyf finau yn dywedyd Ie. Mewn gair, yr wyf yn ei wneuthur yn rheol arbenig i gydsynio â phob peth." Mae hwn yn gwneuthur felly wrth reol. Gwenieithwr y galwn ni ddyn felly, dyn gwael, brwnt,—dyn nad yw byth yn dywedyd ei feddwl ei hun; neu i fod yn fwy *charitable*, dyn fe allai nad oes ganddo yr un meddwl o'i eiddo ei hun i gael, ond yn gwneuthur yn eofn bob amser ag eiddo ereill, fel y gwna'r gwcw.

Mae Na onest yn werthfawr fynychaf. Mewn cyfarfodydd cymdeithasol, ni thrinir un pwnc yn ddoeth ac i bwrpas da os na ddaw Na i fyny o ryw gyfeiriad. Mae Na yn peri gwyntylliad ar y pwnc, ac yn dwyn ato yr ystyriaeth angenrheidiol. Rhy barod yw pobl i roddi cydsyniad yn anystyriol. Dyma nodwedd sydd yn rhy gyffredin yn mhlith y dosparth gweithiol. "Clywch, clywch," a "hwre," heb roddi munyd o ystyriaeth i'r pwnc, pan fo'r pwnc fe allai yn un gwir bwysig, ac yn gofyn ystyriaeth manwl. Nid oes yr un pwnc yn waeth o'i ddadleu yndda, os bydd hyny yn cael ei wneuthur mewn yspryd a thymher priodol. Ond pa fwyaf anwybodus fyddo pobl, mwyaf i gyd yw eu hanmharodrwydd i sefyll gwrthwynebiad. Mae pob un na fyddo yn cytuno â hwy, pob un na ddywed Ie gyda hwy, mae pob un felly yn elyn iddynt. Nid llais y doeth, y profiadol, yr anmhleidiol a fynant glywed; ond llais pwy bynag a ddywed ie a hwre gyda hwy. Fynychaf crytiaid ieuainc, anwybodus, ac anmhrofiadol yw y rhai a wnant hyny. Pwy sydd yn penderfynu *strikes* fynychaf? Onid y cyfryw nad oes mwy o weled ynddynt nag sydd mewn spectol wernen, y cyfryw nad yw eu synwyr na'u profiad ar adegau ereill yn cael dim munyd o sylw? Gydweithwyr, rhoddwch chwareu teg bob amser i Na y gwrthwynebydd. Os ydych am weithredu yn ddoeth, gwrandewch bob ochr. Pwyswch, mesurwch, a pheidiwch edrych yn ddu ar y sawl fyddo yn gwrthwynebu. John Bright, onide, ddywedodd nad oes fawr daioni yn dod o'r mesurau hyny a benderfynir yn y Senedd yn rhy unfrydol —lle mae teimlad yn cymmeryd lle rheswm. Mae'r wlad wedi gorfod galaru lawer gwaith o herwydd y cyfryw benderfyniadau brysiog. Ond am y mesurau hyny a ddadleuir flwyddyn ar ol blwyddyn, y maent trwy hyny yn derbyn cyflawn ystyriaeth. Edrychir arnynt o wahanol gyfeiriadau, cabolir a pherffeithir hwy, ac o'r diwedd troant allan yn fesurau defnyddiol a gwerthfawr. Oni bai'r Na pan fo eisieu, ni fyddai gwaith y Senedd o fawr werth.

"Mae pob un," meddai Smiles (fe ddylai pob dyn ieuanc a allo ddarllen gweithiau Smiles), "wedi clywed am y dyn nad oedd yn gallu dywedyd Na. Yr oedd yn gyfaill i bob un ond iddo ei hun. Rhedodd trwy yr oll a feddai mewn amser byr iawn, ac yna aeth at ei gyfeillion i ymofyn am help, gan annghofio fod cyfeillion tywydd teg

yn fynych yn diflanu pan ddelo gwlaw. Nid yw poced lawn byth yn gweled diffyg o gyfeillion; ond beth am y boced wag? ac y mae Eco yn ateb—Beth! Rheol bywyd y gwr hwn oedd gwneuthur dros bawb beth bynag fyddai pawb yn geisio ganddo. Ni ddeallwyd erioed y rheswm pam, pa un ai am fod ei galon yn curo mewn ateb i bob calon arall, neu ynte am nad oedd yn caru rhoi tramgwydd; ond sicr yw nad oedd yn gallu gwrthod un cais, pa un bynag fyddai i lawnodi deiseb, neu addaw pleidlais, neu roi benthyg arian. Nis gallasai ddywedyd Na, ac yr oedd llawer a'i hadwaenai yn dda yn arfer dywedyd nad oedd ganddo y *moral courage*—y gwroldeb moesol—i wneuthur hyny. Gadawodd ei dad iddo etifeddiaeth fach bert, ac ar unwaith ymosodwyd arno gan garn o wenieithwyr, y rhai a ddisgynasant arno fel haid o gacwn. Yn awr yr oedd yr amser iddo ddywedyd Na os gallasai, ond ni allasai. Yr oedd y tafod teg a'r geiriau gwenieithus yn ormod iddo. Yr oedd yr arferiad o ildio a rhoi ffordd wedi ei ffurfio; nid oedd yn caru cael ei foddran, allasai efe ddim goddef gwrthod, ddim sefyll cais taer—fel nad beth fuasai'r cais, am lasaid o frandi, neu fenthyg pum swllt, neu bum punt, neu *signwch* y tamaid papur yma, nid oedd dim modd gwrthod. Oedd, yr oedd ganddo ddigon o gyfeillion tra'r oedd ganddo arian. Ond fe'i dinystriwyd ef trwy yr anallu oedd ynddo i ddywedyd "y Na pan oedd eisieu." Yr oedd yr arferiad wedi myned yn ail natur iddo. Stori'r Ethiopiad, stori'r llewpard drosodd drachefn ydoedd. Ni ddaeth byth yn gall. Hen bost ydoedd ag oedd pob hen libyn yn dyfod ac yn ymrwbio yn ei erbyn; tap ydoedd lle'r oedd pob enaid sychedig yn cael yfed; ystlys ag oedd pob hen gi newynog yn cael twc arno; asyn, ar gefn yr hwn yr oedd pob cnaf yn mynu marchogaeth; melin falai wenith pawb ond yr eiddo ei hun; mewn gair, *jolly fellow*, bachgen da ei galon, yr hwn yn ei fyw nid oedd yn gallu dywedyd Na.

Mae o'r pwys mwyaf er heddwch a chyssur dyn yn y byd yma, ei fod yn gallu dywedyd Na ar yr amser iawn. Dinystrir llawer am nad allant neu am nad ydynt yn ei ddywedyd. Mae pechod yn fynych yn gwneuthur ei nyth yn y galon, am nad ydym yn ymwroli ac yn dywedyd Na ar y dechreu. Pan fyddo pleser yn ein temtio â'i hudoliaethau, bydded i ni ymdrechu dywedyd y Na angenrheidiol ar unwaith, ac fe fydd y rhybuddiwr bychan oddifewn yn sicr o gymmeradwyo ein penderfyniad, a bydd ein rhinwedd wedi derbyn nerth newydd trwy yr ymdrech. Yr unig ffordd i gyfarfod â themtasiynau i oferedd, i seguryd, ffolineb, neu unrhyw arferion drwg, yw gwrthwynebu ar unwaith, a dywedyd Na yn uchel, yn ddifloesgni, ac yn ddiofn. Gwrthwynebwch ddiafol ac fe a ffy oddiwrthych. Rhoddwch iddo le i osod ei drwyn, ac fe fydd cyn hir wedi gwneuthur ei gartref gyda chwi.

Dysgir yn rhy fynych i ddywedyd Na pan *na* fo eisieu, ac mae'r plentyn sydd yn dywedyd Na yn rhonc wrth ei rieni, yn methu a dywedyd Na wrth ei gyfeillion ieuainc pan fyddont yn ei arwain ar gyfeiliorn. Mae Na plentyn felly yn arwydd o wendid cymmeriad, ac yn dangos esgeulusdod mawr ar ran ei rieni tuag ato, er fod rhai plant

ysywaeth yn llithro er gwaethaf pob cynghor a phob rhybudd. Nid diffyg rhybuddio fu ar y brithyll bach pan y daliwyd ef o'r diwedd ar y bachyn. Yr oedd y pryfyn wedi cael digon o rybudd cyn iddo golli ei fywyd yn y ganwyll. Ymddengys fel pe byddai rhyw swyn yn dyfod dros un wrth chwareu â drwg, fel y mae bron yn anmhossibl ymddihatru oddiwrtho ar ol dechreu chwareu ag ef. Mae dylanwad pechod rhywbeth yn gyffelyb i ddylanwad y *crocodile* neu *rattlesnake* ar ei ysglyfaeth.

Nid yw Na yn edrych yn air anhawdd i'w swnio, ac etto mae'n amlwg fod ynddo rhywbeth nad yw dim o pawb yn gallu ei feistroli. Mae hyny o herwydd rhyw ddiffyg, rhyw wendid cynhenid fe allai yn y cyfansoddiad; diffyg a gwendid, fodd bynag, nad oes dim ymdrech erioed wedi ei wneuthur i'w gorchfygu. Mae Shibboleth mor hawdd i'w seinio â Sibboleth, gydag ychydig o ofal ar y dechreu. Peth gwerthfawr yw penderfyniad, a gwerthfawr yw dyfalbarhad. Dyfalbarhad a orchfyga bob peth, meddai'r ddiareb Seisnig. Treier ef. Shibboleth! Na, nid Sibboleth, ond Shibboleth. Nid Ie, ond Na yw'r wers bresenol, y Na pan fo eisieu. Dacw blentyn bach hardd fan draw—di-ddrwg, di-dda, fe allai. 'Does ynddo ddim giau, fodd bynag,—dim *nerve*. All e' ddim dywedyd Na pan ddylai. Un i gymmeryd ei arwain gan arall yw—un a gymmer ei weithio fel tamaid o glai. Dacw fe wedi cymmeryd y bibell yn ei law, yn gwbl groes i'w ddymuniad, ac yn gwbl groes i'w deimlad. Ond mae wedi methu gwrthsefyll llais y gwawdiwr. Mae'n gas ganddo'r bibell, ac yn gas ganddo bob diodydd meddwol; ond nid oes ynddo ddigon o wroldeb i wrthsefyll gwawd, ac ymgadw rhag gwneuthur fel y gwna pobl ereill. Gall y plentyn gymmeradwyo a gwerthfawrogi "Pregeth fach Abraham Lincoln," a thyfu i fyny i fod yn ddyn parod i wasanaethu dan faner y cythraul, o ddiffyg dysgu dywedyd y Na pan fo eisieu. Beth ddywed pobl am danaf? Dyma'r gofyniad, yn lle beth ddywed Rheswm, beth ddywed Cydwybod? Llais y bobl, gwneuthur fel ereill, yw rheol y bobl weiniaid yma. O'r dechreu plygant ben i'r dylanwad yma, ac ant rhag eu blaen yn wanach wanach i wrthsefyll pob gwawd a dirmyg. Os ydym am ddyfod yn ddynion cryfion, rhaid i ni wrth reol arall, sef dysgu dywedyd y Na pan fo eisieu—Na wrth y bibell, Na wrth y diodydd meddwol, Na yn wyneb pob gwawd, Na yn erbyn pob trais a gormes, pob twyll a hoced. Dysger dywedyd y Na yn awr, ymarferer ag ef, fel y byddo yn rhwydd ei adrodd pan ddelo dydd taro. "Wyddoch chwi ddim pa mor gynted," meddai Kilsby, "y bydd galw arnoch i ddywedyd 'Na' wrth y Cythraul."

Mae dyn yn ddyogel tra y byddo'n peidio dechreu chwareu â phechod; ond nid yw yn meddu fawr nerth nes ydyw wedi llwyr ymroddi at yr ymarfer o rinwedd. Mae pob arferion da neu ddrwg yn casglu nerth gydag amser. Ymarferer, gan hyny, o'r cychwyn, a pharhaer trwy'r oes i ddywedyd y Na pan fo eisieu. Trwy hyny y ffurfir y cymmeriad cadarn, a saif yn wyneb ymosodiadau temtasiynau'r byd. "Yfwch," meddai ei gydweithwyr wrth Franklin yn ddyn ieuanc gynt yn Llundain, pan oedd yn gweithio fel argraffydd yno. "Ysmociwch." "Na

na i," meddai yntau, ac fe ddarfu i "Na na i" ei fendithio am hyny, a'i dderchafu yn raddol i anrhydedd ac i enwogrwydd, fel y daeth yn wrthddrych syndod ac edmygedd y byd, a'i gymmeriad yn esampl i fobl ieuainc o bob oes olynol i'w efelychu. Yr ychydig yw y rhai sydd yn gallu dywedyd y "Na pan fyddo eisieu." Halen y ddaear ydynt. Ceisia di, ddarllenydd, fod o nifer y cyfryw, fel y gellir dy rifo yn mhlith gwir wasanaethwyr dy oes a'th genedlaeth. Annghydffurfwyr ydynt, nid er mwyn hynodrwydd, nid er mwyn peri siarad am danynt, ond er mwyn gwybodaeth, er mwyn rhinwedd, er mwyn cydwybod. A fyni di wybod pwy ydynt? Dacw Moses; dacw Daniel; dacw Shadrach, Mesach, ac Abednego; dacw Luther, yr hwn trwy floeddio "Na na i" a barodd i furiau'r Babaeth i grynu hyd ei seiliau; dacw Wickliffe, a Latimer, a Ridley yn Lloegr; John Huss a Jerome o Prague yn Germani; Calvin a Zuinglius yn Switzerland; John Knox yn Scotland, ac Esgob Farrar yn Nghymru. Dyna ychydig, ac yn ddiweddarach gallwn enwi Whitfield a Wesley, Robinson, Penn, a Fox, Priestley, Channing, a Parker, Wroth, Penry, Rowlands, Jenkin Jones, D. Llwyd, a John James,—dyna enwau ychydig a fedrent ddywedyd "y Na pan fyddai eisieu"—enwau a barhant i arogli yn beraidd drwy yr oesau—dewrion a gwrolion yr oesau yr oeddynt yn byw ynddynt. Ceisiwn efelychu eu hesampl yn mhob rhinwedd, ac i fyw yn wrol ac yn ddewr fel hwythau, a pheidio byth annghofio dywedyd "y Na pan fyddo eisieu." U.

---

## ATHRAWIAETH YSGRYTHYROL GWEITHREDOEDD DA.

(*Parhad o tudalen* 29.)

2. Yr ail osodiad yw, fod yr Ysgrythyrau yn siarad yn fynych am weithredoedd da, ac yn eu huchel gymmeradwyo. Wrth brofi hyn, teimlwn ein bod fel pe byddem yn profi mai llyfr da yw y Beibl. Mewn gair, ymddengys y gwaith rhywbeth yn debyg i sefydlu gwireb (*truism*), mai daioni yw daioni; ac o ganlyniad fod gweithredoedd da yn dda. Ynfydrwydd fuasai arferyd y fath iaith, oni fuasem yn gwybod, ac yn cofio pa fath greadur rhyfeddol yw dyn, a pha fodd y mae yn ymollwng gyda thueddiad cyfundrefnau, addysg a'r arferiad ddiystyr o eiriau. Nid anfynych y mae hyn wedi peri iddo ddychymmygu nad yw yr hyn sydd wir yn mhob perthynas arall ddim yn wir ar dir crefydd. Y mae bid sicr wedi ei dueddu ar rai prydiau i wadu mai rhinwedd yw daioni, neu mai bod yn dda yw bod yn grefyddol. Gallwn fentro dweyd nad oes gan lawer o'r rhai sydd wedi darllen yr Ysgrythyrau trwy eu hoes un dychymmyg, neu un meddyldrych am y modd canmoladwy a goruchel y maent yn siarad am weithredoedd da, ac yn dirgymell y cyflawniad o honynt, a'u bod yn gwneyd i fyny ran bwysig, ië, y mwyaf pwysig o wasanaeth crefyddol.

Caniateir i ni gan hyny i ddwyn ychydig enghreifftiau yn mlaen heb wneyd un sylw pellach arnynt.

Y mae yr Iesu yn dwyn y pwnc dan ein sylw gyda ei fod yn dechreu ar ei waith cyhoeddus, yn ei swydd o Iachawdwr mawr ysprydol y byd. "Llewyrched felly eich goleuni gerbron dynion, fel y gwelont eich *gweithredoedd da* chwi, ac y gogoneddont eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd." Y mae yr Apostol Paul yn gweddio ar "I'n Harglwydd Iesu Grist, a Duw ein Tad, yr hwn a'n carodd ni * * * * i sicrhau y Cristionogion yn Thessalonica, yn mhob gair *a gweithred dda*." Y mae yn gorchymmyn i'w fab naturiol yn y ffydd i annog dynion i "wneuthur daioni, ymgyfoethogi mewn *gweithredoedd da*, gan fod yn hawdd ganddynt roddi a chyfranu." "Yr un modd bod i'r gwragedd eu trefnu eu hunain mewn dillad gweddus, gwylder a sobrwydd; nid a gwallt plethedig, neu aur, neu emau, neu ddillad gwerthfawr, ond â *gweithredoedd da*." Dywed wrthym, fod yr Ysgrythyr wedi cael ei rhoddi i ni i geryddu, i hyfforddi mewn cyfiawnder; fel y byddo dyn Duw yn berffaith, wedi ei berffeithio i *bob gweithred dda*." Dywed yn mhellach wrth Timotheus, "Pwy bynag gan hyny a'i glanhao ei hunan oddiwrth y pethau hyn, efe a fydd lestr i barch, wedi ei santeiddio ac yn gymhwys i'r Arglwydd, wedi ei ddarparu i bob *gweithred dda*." Y mae yn dirgymhell Titus, "I ddangos dy hun yn mhob peth yn esampl o *weithredoedd da*," ac y mae yn ewyllysio iddo fod yn "daer, fel y byddo i'r sawl a gredasant i Dduw ofalu blaenori *mewn gweithredoedd da*." Y mae yr Apostol Pedr yn gobeithio, ac yn dymuno ar i weithredoedd da gael eu cyflawni i ddystewi gwrthwynebwyr, ac i ogoneddu Duw. "Y gallont o herwydd eich *gweithredoedd da* a welant, ogoneddu Duw yn nydd yr ymweliad." Yn wir, y mae gweithredoedd da yn cael eu gosod allan fel nôd ar ddysgyblion a phobl neillduol yr Arglwydd Iesu Grist, a dywed Titus mai dyben ei farwolaeth, ië, a'i fywyd hefyd oedd ein dwyn ni oddiwrth y drwg, a'n gwneuthur yn ddynion da. "Yr hwn a'i rhoddes ei hun drosom, i'n prynu ni oddiwrth bob anwiredd, ac i'n puro ni iddo ei hun yn bobl briodol, awyddus i *weithredoedd da*." Y mae ymadroddion ereill ddigon i'w cael, yn neillduol yn y Testament Newydd, i'r un perwyl. Y maent yn cyfleu yspryd yr efengyl a baich addysg a phregethiad yr apostolion. Dylent atal pob dyn gan hyny rhag cyhuddo ereill o fod yn bregethwyr gweithredoedd da, fel pe buasai hyny yn sarhad; ac os felly, y mae pregethwyr cyntefig y grefydd Gristionogol, Crist a'i apostolion, a'r dynion duwiolaf a mwyaf santaidd sydd wedi bod yn ein byd ni erioed yn dwyn yr un nodau.

3. Y maent nid yn unig yn cymmeradwyo gweithredoedd da, ond hefyd yn eu dwyn i gyssylltiad sydd yn dangos eu bod yn rhan, ac yn rhan bwysig ac hanfodol o egwyddorion cyntaf a sylfaenol Cristionogaeth. Y mae hyn o bossibl yn cael ei gredu mewn rhyw ystyr anmhennodol ac aneglur; o leiaf, dichon fod y mwyafrif o Gristionogion yn rhoddi coel goddefol iddo. Ond nid yw pawb yn gwybod ac yn cydnabod; yn wir, dychymmygwn ni mai ychydig mewn cymhariaeth yw y cyfryw sydd yn argyhoeddedig o'r berthynas neillduol a bwriad-

edig mae gweithredoedd yn cael eu gwneyd gan yr ysgrifenwyr santaidd i ddal cyssylltiad ag athrawiaeth hanfodol ein crefydd. Y maent hwy yn dangos yn amlwg iawn fod cyssylltiad agos ac anwahanadwy yn bodoli rhwng gweithredoedd da â dedwyddwch amserol a thragywyddol dyn yn unigol a'r gymdeithas ddynol yn gyffredinol. Y mae hyn o werth ystyriaeth ar wahan oddiwrth bob dadleuon, fel y teimlwn y pwys hanfodol a gwir bwysig o weithredoedd Cristionogaeth, ac o ddaioni moesol—o weithredoedd, a gweithredoedd da.

(*a.*) *Adenedigaeth* sydd un o brif athrawiaethau Cristionogaeth. Geni drachefn yw geni i fywyd newydd trwy ddylanwad a gallu crefydd newydd—dyn yn cael ei ddwyn i mewn i fyd o feddyliau newydd, serchiadau, perthynas a rhwymedigaethau newydd. Yn awr, y mae yr holl bethau yma wedi eu cynnwys gan yr apostol yn yr ymadrodd, ystyr yr hwn sydd dan ein hystyriaeth. Dengys yr ymadrodd hyn yn amlwg iawn, sef, "Canys ei waith Ef ydym, *wedi ein creu yn Nghrist Iesu i weithredoedd da*, y rhai a ddarparodd Duw, fel y rhodiem ni ynddynt." Y mae dyben rhagddarparedig Duw, gallu adenedigaethol Crist, cymmeriad y weithred newydd, yn cael ei osod allan yma dan yr enw neu osodiad—"gweithredoedd da."

(*b.*) Y mae *ffydd* yn brif athrawiaeth neu yn egwyddor fywiol mewn Cristionogaeth. Sylwn ar y cyssylltiad y mae yn sefyll ynddo, a pha beth yr haerir sydd hanfodol i'w gwneuthur yn sylfaen gobaith. "Pa fudd yw, fy mrodyr, o dywed neb fod ganddo ffydd ac heb fod ganddo weithredoedd? A ddichon ffydd ei gadw ef? Eithr rhyw un a ddywed, Tydi, ffydd sydd genyt, minnau gweithredoedd sydd genyf, dangos i mi dy ffydd di heb dy weithredoedd, a minnau wrth fy ngweithredoedd i a ddangosaf i ti fy ffydd innau." "Chwi a welwch gan hyny mai o weithredoedd y cyfiawnheir dyn ac nid o ffydd yn unig." "Canys megys y mae y corff heb yr ysbryd yn farw, felly ffydd heb weithredoedd marw yw." Haeriadau rhyfedd iawn yw y rhai yma, er eu bod yn dra adnabyddus. Nid ydynt yn gadael lle i un amheuaeth. Nid ydynt yn hawlio neb i dderchafu ffydd uwchlaw gweithredoedd. Y maent yn gosod allan fod yr olaf yr un mor bwysig, o leiaf, a'r blaenaf. Neu, gellir dweyd gyda mwy o briodoldeb efallai eu bod yn gosod allan ffydd a gweithredoedd yn anwahanol gyssylltiedig â'u gilydd—fod undeb annattodadwy yn bodoli rhyngddynt. Y mae yr apostol yn gosod allan yr egwyddor a lywodraethai Abraham, fel o weithredoedd, ac y mae yn haeru fod ei ffydd wedi ei pherffeithio trwy weithredoedd, a'i fod ef wedi cael ei gyfiawnhau trwy weithredoedd.

(*c.*) *Cyfiawnhad.* Er fod hwn yn ymadrodd Ysgrythyrol a mynegol, y mae wedi cael ei dywyllu gan eiriau heb wybodaeth, fel mai gwell yw i ni efallai ddefnyddio rhyw air dealladwy a chyffredin arall, megys maddeuant neu dderbyniad. Ac yn y man yma carwn ddyfynu rhai ymadroddion neillduol o amlwg allan o'r Hen Destament. Y mae yr oll o'r rhai sydd yn gosod allan syniad y proffwyd Esay, yn amlwg iawn, a thrwy hyny yn gosod allan ei feddwl mewn iaith eglur a dealladwy i'r gwanaf ei gyrhaeddiadau; "Gadawed y drygionus ei ffyrdd, a'r gwr anwir ei feddyliau; a dychweled at yr Arglwydd, ac

Efe a gymmer drugaredd arno; ac at ein Duw ni, o herwydd Efe a arbed yn helaeth." Dywed Ezeciel wrthym fod y dyn sydd yn gadael ei bechodau ac yn gwneuthur "barn a chyfiawnder, gan fyw efe a fydd byw, medd yr Arglwydd Dduw." Wel, paham, neu pa fodd y bydd efe byw? "Yn ei gyfiawnder a wnaeth y bydd efe byw." "A phan ddychwelo yr annuwiol oddiwrth ei ddrygioni yr hwn a wnaeth, a gwneuthur barn a chyfiawnder, hwnw a geidw yn fyw ei enaid." Ni all neb gamddeall, na gosod camesboniad, gallem feddwl, ar eiriau o'r fath yma. Yn y Testament Newydd, cawn fod yr Apostol Paul yn haeru fod i'r dyn duwiol, "ogoniant, ac anrhydedd, a thangnefedd." Cawn ei fod yn appelio gyda gorfoledd at ei fywyd blaenorol ei hun mewn un man, ac yn mawr lawenhau yn y gweithredoedd a gyflawnasai, ac i fod ganddynt rywbeth i'w wneyd a'i obeithion am daledigaeth y gwobrwy. "Mi a ymdrechais ymdrech deg, mi a orphenais fy ngyrfa, mi a gedwais y ffydd. O hyn allan rhoddwyd coron cyfiawnder i'w chadw i mi, yr hon a rydd yr Arglwydd, y Barnwr Cyfiawn, i mi yn y dydd hwnw; ac nid yn unig i mi, ond hefyd i bawb a garant ei ymddangosiad Ef." Cawn fod Cornelius y pagan heb gael ei droi, yn cael ei alw yn ddyn defosiynol, o herwydd y gweithredoedd da a gyflawnai, ac y mae yn cael ei sicrhau fod ei weithredoedd da yn rhai cymmeradwy gan Dduw. "Dy weddiau di a'th elusenau a ddyrchafasant yn goffadwriaeth gerbron Duw." Oddiwrth y ffaith yma y mae Pedr yn tynu yr un casgliad a ninau, ac yn dywedyd, "Yn mhob cenedl y neb sydd yn ei ofni Ef, ac yn gweithredu cyfiawnder, sydd gymmeradwy ganddo Ef." Cawn lawer iawn o ymadroddion cyffelyb i'r rhai ydym wedi eu dyfynu a ddangosant y ca pawb eu gwobrwyo yn ol eu gweithredoedd. "Y bydd i Dduw i dalu i bob un yn ol ei weithredoedd." "Canys rhaid i ni oll ymddangos gerbron brawdle Crist; fel y derbynio pob un y pethau a wnaethpwyd yn y corff, yn ol yr hyn a wnaeth, pa un bynag ai da ai drwg."

(*d.*) Y mae y cyssylltiad yma ag *at-daliad*, yn yr hwn y mae gweithredoedd yn cael eu dwyn i'r amlwg drachefn a thrachefn yn yr Ysgrythyrau, yn teilyngu ystyriaeth ddwys. Dyma yr unig egwyddor o at-daliad o ddwyfol ordeiniad. Dyma yr unig agwedd sydd wedi cael ei ddatguddio yn amlwg i ni yn nghylch digwyddiad dychrynllyd y dydd ofnadwy hwnw ydym yn galw dydd barn arno, ac y mae wedi cael ei ddatguddio gan yr hwn na lefarodd neb erioed fel Efe. Dywed wrthym, mewn amrywiol ffyrdd, a chydag awdurdod, pa gymmaint y mae ein maddeuant neu ein gwrthodiad, ein iachawdwriaeth neu ein condemniad, yn ymddibynu ar ein gweithredoedd ein hunain. Nid oes un pryder, niwl na thywyllwch ar ei feddwl pan yn llefaru ar y pwnc yma. Y mae pob peth yn cael ei brofi wrth y prawf hwnw. Nid yw yn arferyd iaith anmhenodol pan yn llefaru yn ei gylch ond un blaen, un ddealladwy, ac un na allwn gamddeall ei hystyr. Dywed wrthym yn amlwg, "Y daw Mab y dyn yn ngogoniant ei Dad, a'r angylion santaidd *i roddi i bob dyn yn ol ei weithredoedd.*" Y mae yn cyfartalu maddeuant Duw a'n maddeuant ninau i'n gilydd,—

"Maddeuwch a maddeuir i chwithau." "Oni faddeuwch i ddynion eu camweddau, ni faddeu eich Tad nefol eich camweddau chwithau." Y mae yn caniatau, neu yn hytrach yn ein dysgu i gyssylltu ein gweithredoedd o drugaredd gyda ein herfyniad am drugaredd Duw,—"Maddeu i ni ein dyledion fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr." Y mae yn darlunio natur dysgyblaeth, ac yn pennodi egwyddor at-daliadol trwy ddammeg y talentau; lle na enwir dim ond gweithredoedd; lle y mae ffyddlondeb yn cael ei osod allan gan y gweision ffyddlon, y rhai ydynt gymmeradwy gan ein Harglwydd, ac y mae gwas drwg a diog yn cael ei gondemnio am ei ddrygioni a'i ddiogi, tra y mae y rhai da, o'r tu arall, yn cael eu cymmeradwyo,—"Da, was da a ffyddlon, buost ffyddlon ar ychydig, mi a'th osodaf ar lawer, dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd." Y mae dammeg y morwynion yn gosod allan yr un peth. Yr ydym yn galw sylw at y ffaith fod y ddwy ddammeg hon, â'r trydydd y cawn sylwi arni, yn gwneyd i fyny y bummed bennod-ar-ugain o efengyl Matthew, yr hon, gyda'r bennod flaenorol, sydd yn cynnwys yr unig ddesgrifiadau a rydd yr Ysgrythyrau i ni yn nghylch dydd barn, a'r egwyddorion ar y rhai y bydd y dynged olaf i gael ei phasio. Y mae y ddammeg arall ydym wedi cyfeirio ati yn dechreu yn y modd argraffiadol yma:—"A Mab y dyn, pan ddêl yn ei ogoniant, a'r holl angelion santaidd gydag Ef, yna yr eistedd ar orseddfainc ei ogoniant. A chydgesglir ger ei fron Ef yr holl genedloedd; ac Efe a'u didola hwynt oddiwrth eu gilydd, megys y didola bugail y defaid oddiwrth y geifr; ac a esyd y defaid ar ei ddeheulaw, ond y geifr ar yr aswy." Ar ba egwyddor y didola Efe hwynt? Ar ba ran o gymmeriadau y lluaws o'i flaen bydd i'r Barnwr dalu y sylw mwyaf pan yn penderfynu eu tynged. Beth ddwg i'w cof, beth ddywed wrth y gwyddfodolion; beth a esyd allan fel sylfaen derbyniad neu wrthodiad? Hyn, a hyn yn unig, sef eu gweithredoedd da neu ddrwg. Nid oes un sylfaen arall yn cael ei henwi. Nid oes un ammod arall yn cael ei awgrymu. Nid oes un achos iachawdwriaeth neu gondemniad arall yn cael ei ddwyn i mewn. Y cariadus, yr ewyllwyswyr da, y trugarogion a'r ffyddlon yw y rhai sydd yn cael eu dwyn i mewn i deyrnas nefoedd; a'r anngharidus, yr hunanol, a'r anffyddlon yw y rhai sydd yn cael eu cau allan. Sylwn hefyd ar y dull agored ac amlwg mae gweithredoedd y blaenaf yn cael eu henwi, a hwythau yn cael eu cydnabod yn wrthddrychau gwobrwy. "Deuwch, chwi fendigedigion fy Nhad, etifeddwch y deyrnas a barotowyd i chwi er seiliad y byd. Canys bum newynog, a chwi a roisoch i mi fwyd; bu arnaf syched, a rhoisoch i mi ddiod; bum ddieithr, a dygasoch fu gyda chwi; noeth, a dilladasoch fi; bum glaf, ac ymwelsoch â mi; a bum yn ngharchar, a daethoch ataf." Y fath ydyw y darluniau a dynwyd gan ein Harglwydd ei hunan o'r farn ddyfodol. Nid ydym ni yn meddwl eu bod yn ddarluniau llythyrenol, nac wedi eu bwriadu i fod yn ddesgrifiadau cywir o'r byd ysprydol. Ond credwn ni, fel y mae yn rhaid i bob Cristion, pob crediniwr yn Iesu Grist, gredu, eu bod yn gosod allan gyfraith fawr at-daliad Cristionogol. Onid yw yn syndod meddwl, gan hyny, fod Duw ei hunan, y proffwydi,

Crist a'i apostolion, yn gosod cymmaint o bwys ar weithredoedd da' os gwir ddywed llawer pan draethant nad yw y gweithredoedd goreu a fedr dyn eu cyflawni ond megys *bratiau budron!* Y mae yma ryw annghyssondeb annghymmodadwy i'w weled, a gadawn i'r darllenydd farnu pwy sydd iawn.

Os dywedir fod perygl mewn cymmeradwyo gweithredoedd da, ac mewn adeiladu gobeithion arnynt, digon yw ateb yn bresenol, sef yr ymddengys fod ein Hiachawdwr a'i apostolion yn credu fel arall, ac y mae pob dyn da, yn mhob enwad o Gristionogion, yn profi yn wahanol yn eu hymddygiad. Y mae eu bywydau gweithgar a dysglaer yn profi y gwrthwyneb; o ganlyniad fe welwn, fel y sylwyd eisoes, fod yma ryw annghyssondeb mawr yn bodoli yn rhywle. Y mae yr Athraw mawr a'i apostolion, yn gystal ag ereill, yn dweyd yn groyw fod yn rhaid i ni lafurio a chyflawni cyflawniadau rhinweddol, cyfiawn, a santaidd. Gallwn, a dylem bid sicr, gan hyny, fyned mor belled ag yr aethant hwy, i gymmeryd eu desgrifiadau, defnyddio eu geiriau, a chefnogi pob gobeithion a gefnogasant hwy, fel y byddo ein diwedd ni fel eu diwedd hwythau, ac fel y byddom i adael y byd presenol ryw gymmaint yn well ar ein hymadawiad o hono nâ phan wnaethom ein hymddangosiad ynddo, ac fel y byddom hefyd yn sicr o'r gwirionedd mawr yma,—"Canys ni a wyddom, os ein daearol dŷ o'r babell hon a ddattodir, fod i ni adeilad gan Dduw, sef tŷ nid o waith llaw, tragwyddol yn y nefoedd." Byddwn byw yn y fath fodd ag y byddom i huno yn angeu a'n llygaid yn gweled iachawdwriaeth ein Duw. E. B. H.

---

## DUW: UWCHLAW, ISLAW, ODDIAMGYLCH, AC ODDIFEWN.

(*Parhad o Tudalen* 53.)

(1.) Yr wyf yn meddwl y byddai parch ac ofn parchedig uwchben dirgeledigaethau y bydysawd yn marw ymaith. Ni fyddai dynion wrth edrych i fyny yn gweled dim yn uwch nâ hwy eu hunain. Byddent yn dweyd: Nid yw ond ffrwythau diweddaf dadblygiad naturiol. Trwy ddamwain ffodus mae y mân ronynau dechreuol wedi cynnyrchu meddwl; trwy ddamwain arall llai ffodus mae yn debyg y daw diwedd ar feddwl. Gadewch i ni fyw tra caffom ni fyw. Mae pob addoliad o allu uwch yn afresymol. Ni yw y pethau uwchaf sydd yn bodoli. Felly deuai diwedd ar bob hiraeth ysprydol, pob gobaith, pob hunangyssegriad i wasanaeth dwyfol, pob addoliad o fawredd anfeidrol, pob parch ac edmygedd at rywbeth anweledig, ond etto mwyaf gwirioneddol. Yn lle y parch cyssegredig yma sydd yn derchafu yr enaid, byddai genym grefydd o hunandyb—rhyw gyfundrefn fawr o fyfiaeth (*egotism*). Ond mae dyn wedi ei wneyd yn y fath fodd fel mae yn cael ei dderchafu wrth ostwng ei hun, ac yn cael ei ostwng wrth dderchafu ei hun. Yr wyf yn credu y byddai bywyd, heb y parch sydd yn deilliaw o grefydd, yn dylawd iawn. Gyda chrefydd o hunandyb, fe ddeuai

i mewn hefyd foesoldeb hunanol. Os nad oes dim yn ddwyfol yn y bydysawd, yna nid oes dim yn ddwyfol mewn cyfiawnder; yr unig gyfiawnder yw serch at hunan. Bydded i bob dyn edrych allan drosto ei hun, a bydded i ddeddf dadblygiad edrych allan drosom ni gyd. Mae llawn digon o'r foesoldeb hunanol yma yn awr, fel yr ydym i gyd yn gwybod; rhy fach yn awr o'r yspryd hwnw sydd yn dweyd, "Gadewch i ni wneyd yr hyn sydd iawn, a gadael y canlyniadau i Dduw." Ond mae peth o hono wedi ei adael, a'r peth hwnw yw halen y ddaear.

Hefyd, gyda ffydd yn Nuw, byddai'r syniad o ddynoliaeth, o'r hwn mae dyngarwch yn deilliaw, yn diflanu yn raddol. Paham yr ymroddwch chwi i wasanaeth hiliogaeth na ddaeth o un man, a'r hon nid yw yn myned i un man? Gall fod y gwaith o achub enaid anfarwol yn cyffroi brwdfrydedd dyn; ond paham y gwnaf fi roddi fy mywyd, fy meddwl, a'm llafur i gynnorthwyo y *compound* materol yma, sydd yn fuan i ddadfeilio, ac i gael ei ddadansoddi i'w elfenau dechreuol? Gyda ffydd yn Nuw, fe ddiflanai hefyd y ffydd mewn anfarwoldeb. Yr ydym yn ailadrodd uwchben beddau ein hanwyliaid eiriau anfarwol yr Ysgrythyr, "Efe a heuir mewn llygredigaeth, ac a gyfodir mewn anllygredigaeth." Ond os nad ydyw breichiau Duw yn ein cofleidio ni, a'i gariad yn ein cynnal, pa obaith sydd y caiff y marwol hwn wisgo anfarwoldeb? Mae cenedlaeth ar ol cenedlaeth yn rhodio yn dawel tua'r bedd, gan ddweyd gyda sicrwydd tangnefeddus, "Pe rhodiwn ar hyd glyn cysgod angau, nid ofnaf niwed; canys yr wyt ti gyda mi; dy wialen a'th ffon a'm cyssurant." Ond os nad oes gyda ni gymdeithas ddwyfol ar y ddaear, os nad oes gyda ni Dduw wrth yr hwn y gallwn ddweyd, "O Dad! i'th ddwylaw di y gorchymynaf fy yspryd," yna mae'r bedd wedi ennill y fuddugoliaeth unwaith etto, ac mae pob gobaith am ail fywyd, ac ail undeb yn troi allan yn freuddwyd siomedig. Felly wrth golli ffydd yn Nuw, mae syniadau mwyaf gogoneddus yr enaid dynol yn marw ymaith ac yn diflanu. Yr ydym yn codi ein hunain, pan yr edrychwn i fyny at yr anfeidrol. Y teimlad o Dduw oddifewn i ni sydd yn rhoddi ei swyn i fywyd; sydd yn creu cariad haelfrydig, ymlyniad diysgog wrth y gwirionedd, y rhai ydynt yn paentio natur a phrydferthwch goruwchnaturiol—yn rhoddi i'r bywyd tylotaf swyn gobaith, ac yn gogoneddu y cylchoedd iselaf mewn cymdeithas â llewyrch dysgwyliadau nas gall y byd hwn ddim o'u boddloni. Y ffydd yma yn yr anweledig a'r tragywyddol sydd yn rhoddi sylwedd i bethau gweledig ac amserol. Fe allwn ni hebgor pob peth yn well nâ'n ffydd yn Nuw. Blinder a siomiant yw canlyniadau sicr pob pleser bydol ac hunanol. "Pa *use* yw'r cwbl?" yw cri anobeithiol Atheistiaeth ymarferol. Byw heb Dduw yn y byd yw byw heb obaith yn y byd.

Nid llai ond rhagor o grefydd yw'r peth sydd eisiau arnom. Gall gweled Duw yn unig fel gallu arwain i goelgrefydd. Gall ei weled fel deddf amddifadu ein bywyd o wresogrwydd a theimlad. Gall gweled y bywyd dwyfol yn unig yn mhrydferthwch natur a chelfyddyd derfynu mewn crefydd deimladol, heb nerth moesol ynddi. Gall gweled Duw yn unig yn neddf dyledswydd ddwyn ffrwyth mewn crefydd

galed, sych, cyfundrefn o foesoldeb yn unig. Mae ei weled yn Nghrist yn unig yn tueddu at grefydd gul, anoddefgar, a ffurfiol. O ganlyniad mae'n rhaid i ni fyned yn mlaen nid yn ol i fôr helaethach o feddwl, cariad a bywyd. Mae angen arnom ni i weled Duw fel y cyflawnder, sy'n cyflawni oll yn oll. Bydded i ni i'w weled mewn gwyddor, mewn deddf gyffredinol yn rhoddi bywyd i'n holl wybodaeth, ac yn peru i natur i wisgo tegwch mwy dwyfol yn ein golwg. Bydded i ni i'w weled yn holl ddyledswyddau ein bywyd beunyddiol, yn gogoneddu ei fanylion mwyaf isel â gwresogrwydd a thynerwch cariad tad. Bydded i ni i'w weled yn nyfnderoedd ein henaid, yn nirgeledigaethau ein bodolaeth, fel goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch, yn llewyrchu ar ein rheswm ni â phelydrau rheswm mwy dwyfol.

Ond gan fod Duw wedi gweled yn dda i'n gwneyd ni yn fodau rhydd, mae, er mwyn y rheswm hwnw wedi cuddio ei bresenoldeb uniongyrchol, wedi gosod llen arno ei hun tucefn i natur ac odditan ein hymwybodolrwydd. Nid ydym ni yn rhwym i gredu yn Nuw, neu ei weled, os na fyddwn ni yn dewis. Pe byddai rhwymau felly arnom ni i'w weled, ni fyddem ni byth yn rhydd i ddewis rhwng *right* a *wrong*. Byddai ei fawredd anfeidrol yn ein cymhell i wasanaeth orfodol o hono. Felly mae Efe yn gadael i'r Atheist i wadu ei fodolaeth; y dyn bydol i annghofio ei bresenoldeb; y pechadur i fod yn rhydd i droseddu ei ddeddfau. Ond mwyaf i gyd yw yr angen sydd arnom i wylied y rhyddid hwn, a pheidio ei gamddefnyddio. Nid yw Efe neppell oddiwrth neb o honom; acond i ni agor ein llygaid a derchafu ein calonau, daw y goleuni tyner a melus i mewn. "Gwyn eu byd y pur o galon, canys hwy a welant Dduw." W. J.

---

## YR AIFFT A CHANAAN.

### JERUSALEM.—LLYTHYR XVII.

Pan yn dechreu ein ffordd oriwaered o Eglwys yr Esgyniad ar gopa mynydd yr Olewwydd tuag at ddyffryn Cedron a Jerusalem, yr oedd yr ystorom wedi gostegu. Ar y gwaelod, ac yn agos i ardd Gethsemane, dyma rhyw ddyn yn dyfod allan o dŷ, â llestr yn ei law, a rhyw wlybwr ynddo a ymddangosai yn debyg i goffi, ac yn ei arllwys wrth draed y ceffyl. Nid wyf wedi bod yn alluog hyd yma i gael allan beth oedd y weithred yn arwyddocau; ond wrth edrych i wyneb y dyn, yr oeddwn yn meddwl fy mod yn canfod yno ddau air yn ysgrifenedig—groesaw a bakshish. Wedi ychydig yr ydym yn dyfod i fyny at furiau santaidd ddinas Jerusalem. Mae ein pebyll wedi eu gosod i fyny y tu allan i'r ddinas, ac heb fod yn mhell oddiwrth borth Damascus. Mae'r gwlaw wedi gwneuthur y sefyllfa yn bob peth ond hapus. Nid ychydig o orchest yw myned o'r naill babell i'r llall â thraed sychion. Cyssurir rhai o honom i raddau fodd bynag gan yr ystyriaeth mae fan yma y safai pebyll Tywysog Cymru pan fu yn Jerusalem. Mae cryn

dipyn o wendid yn perthyn i ddynoliaeth; byddai yn hawddach genym oddef y frech wen a'i chael oddiwrth ddyn mawr nag oddiwrth ddyn cyffredin; ac yn ddiamheu byddai slap ar y llaw yn fwy goddefol o'i bod yn cael ei gweinyddu â chwip â bon aur iddi. Pan fyddem yn annghofio Tywysog Cymru, yr oeddem yn fynych yn ei theimlo yn ddigon annghyssurus. Yr oedd dranoeth yn ddiwrnod gweddol o deg, a darfu i gyfaill a minau gerdded o amgylch i furiau'r ddinas ar y tu allan. Ceisiem goreu y medrem gymmeryd pethau i mewn fel yr ymddangosent i ni yn bresenol, a cheisiem ddychymygu pethau fel yr oeddynt yn y dyddiau gynt. Gwaith anhawdd iawn ydyw, ac nis gall neb, debygem, feddwl bod yn llwyddianus iawn yn hyny. Nid yw'r canrifoedd wedi myned heibio heb wneuthur eu hol. Wrth gwrs, nid oes yma yr un gareg yn sefyll ar gareg fel y gwnai gynt. Er fod y muriau yma yn edrych yn hen, nid ydynt yn agos bod mor hen ag yw'r Ysgrythyrau. Nid oes yma ddim yn aros, wrth bob tebyg, a welwyd gan enwogion yr hen lyfr, ond y bryniau, ac i raddau y dyffrynoedd, eithr dim ond i raddau, mae'r dyffrynoedd wedi llanw llawer yn y cyfamser. Gellir nodi allan fodd bynag, gyda chryn sicrwydd, amryw o'r rhai hyn: Mynydd yr Olewwydd, Mynydd Seion, Dyffryn Jehoshaphat, &c.

Dau o honom sydd yn cychwyn gyda'n gilydd oddiamgylch i'r ddinas. Y peth cyntaf sydd yn tynu ein sylw ydyw'r tai newyddion ychydig draw yn y pellder; tai bychain ydynt, ond llawer glanach a harddach nâ'r cyffredinolrwydd o'r tai yn y wlad yma. Deallwn eu bod yn perthyn i'r Rwssiaid. Yr ydym yn pasio heibio i borth Jaffa, ac yn mhen ychydig yn dyfod i ddyffryn Hinnom—Uffern neu Gehenna y Testament Newydd. Ni wnaf ond braidd crybwyll y gwahanol fanau yn awr, caf fanylu fe allai rhyw dro etto. Mewn un man yr ydym yn dyfod at ogofau wedi eu tori allan o'r graig. Defnyddid rhai'n gynt er claddu y meirw. Maent wedi eu tori allan o haen dyner rhwng dwy haen galed. Cesglais amryw redyn o'r fan yma yn fath o *souvenirs*. Yn mhen ychydig daethom i ddyffryn Jehoshaphat. Gwelsom lyn Siloam, ond gan ein bod heb un *guide* nid oeddym yn sicr beth am lais traddodiad. Yr oedd gerllaw yma amryw lynau. Mae un o'r rhai hyn yn cael ei chyssylltu â'r hanes yn Esa. viii. 6; Neh. iii. 15; Ioan ix. 7. Draw ar ein cyfer y mae pentref lle safai Twr Siloam gynt. Yn y mur gerllaw yma y mae careg ar yr hon y dywedir y bydd Mohamed yn eistedd pan yn barnu y byd. Mae beddau lawer gerllaw yma. Ychydig yn ddiweddarach daethom at Golofn Absalom (2 Sam. xviii. 18), tua 40 troedfedd o uchder, at yr hon y mae'n arferiad gan Fahometaniaid, Iuddewon, a Christionogion i daflu ceryg er dangos eu casineb at goffadwriaeth mab anufudd. Dyna'r prif bethau a welsom y tro yma. Ond at rhyfeddodau y ddinas.

"Nid oes neb," meddai Thomson, "yn meddwl gadael Jerusalem heb dalu ymweliad â

MAN WYLOFAIN

yr Iuddewon yn y Tyropean." Mae'r ceryg yma yn ddiamheu yn ffurfio rhan o sylfeini y tŷ santaidd, ac wedi eu gosod yno ddim yn

ddiweddarach nag amser Herod, feallai yn hir cyn hyny. Nid ydynt yn fawr iawn, maent yn llawer llai nag y mae Josephus yn eu desgrifio. Nid oes yr un garreg yn un rhan o wastadedd (*area*) y Deml, nac o gylch Castell Dafydd sydd yn debyg i'r maintioli y mae Josephus yn dywedyd oedd wedi eu gosod yn y tyrau a'r muriau yma. Etto mae'r rhai sydd yn Man y Wylofain yn ddigon mawr i ateb pob pwrpas o nerth a pharhad. Nid oes yr un olygfa yn Jerusalem yn fwy awgrymiadol o dristwch na'r wylofain yma o eiddo yr Iuddewon uwch ben adfeilion eu Teml. Mae'n hen arferiad, ac yn yr oesoedd gynt telid symiau mawrion i'r goresgynwyr am y boddhad truenus o gael cusanu y cerrig a chael arllwys allan eu wylofain wrth droed yr hen le santaidd. Gyda gwefusau crynedig a llygaid yn llawn dagrau y canent; "Na ddigia, Arglwydd, yn ddirfawr, ac na chofia anwiredd yn dragywydd, wele, edrych, attolwg, dy bobl di ydym ni oll. Dy santaidd ddinasoedd sydd anialwch; Sion sydd yn ddiffaethwch, a Jerusalem yn annghyfanedd. Tŷ ein santeiddrwydd a'n harddwch ni, lle y moliannai ein tadau dydi, a losgwyd â thân; a'n holl bethau dymunol sydd yn anrhaith." Esaiah lxiv. 9, 10, 11. Pe gellid ond bod yn sicr am y man, allasai dim un lle yn Jerusalem fod yn fwy dyddorol nag Eglwys

## Y Bedd Santaidd.

Ond y mae ei sefyllfa yn amheus iawn, ac y mae yn anhawdd cael profion sicr mewn perthynas iddo. Nid oes yr un cyfeiriad *hanesyddol* at y man hyd y pedwerydd canrif. Cawn gyfeiriadau yn Eusebius, Jerom, Sozomen, &c. I Helena, mam Cystenyn, yr ydys yn ddyledus am nodi allan llawer o'r manau santaidd. Pan y daeth hi i Jerusalem gwnaeth lawer o ymchwiliadau, a chyda help y trigolion, bu'n dra llwyddiannus. Cafwyd gafael yn y bedd a gerllaw iddo *dair croes*, yn nghyd â'r astell ar yr hon yr oedd ysgrifen. Gan fod yr astell wedi ei gwahanu oddiwrth y groes, yr oeddynt yn analluog ar y pryd i benderfynu ar ba un y dyoddefodd yr Iachawdwr, hyd nes i Macarius awgrymu prawf anffaeledig. Yr oedd boneddiges yn Jerusalem yn glaf o glefyd anwelladwy; daethpwyd a'r croesau ati un ar ol y llall; ni wnaeth y ddwy gyntaf yr un argraff; ond pan ddynesodd y drydedd, agorodd ei llygaid, adnewyddodd ei nerth, a hi a gododd o'i gwely yn berffaith iach! Yr oedd y cyfryw brawf yn yr oes hono yn anwrthwynebadwy. Parodd Helena i Eglwys gael ei chodi a'r manau santaidd i gael eu haddurno. Felly mae'r hanes. Yn y flwyddyn 326 y dechreuwyd codi yr Eglwys, ac yn 335 y cafodd ei chyssegru. Mae'r lle fodd bynag wedi myned trwy lawer iawn o gyfnewidiadau oddiar hyny, ac yn enwedig yn amser y croesgadau, ac yn y flwyddyn 1808, dinystriwyd llawer trwy dân; ac yn 1810 y cawsant eu gosod yn eu sefyllfa a'u cyflwr presenol. Nis gallwn ond braidd enwi y rhyfeddodau a ddangosir i ymwelwyr yn y lle yma, ac nid yw o bwys enwi y rhai hyny i gyd. (1.) Dyma'r gareg ar yr hon yr eneiniwyd corff yr Iesu pan dynwyd ef i lawr oddiar y groes. (2.) Ychydig i'r aswy y mae careg gron, a *railing* oddiamgylch iddi, yn

nodi'r man y safai Mair y Forwyn, pan oedd corff yr Iesu yn cael ei eneinio. Yn y Rotunda, yr hwn sydd 67 troedfedd o *diameter*, ac yn cael ei amgylchu gan 18 o bileri, y mae'r (3) *Bedd Santaidd*, adeilad 26 troedfedd wrth 18 troedfedd. Yn y mynediad i mewn iddo y mae (4) Capel yr Angel, oblegyd yno yr eisteddai'r angel ar y maen oedd wedi ei dreiglo oddiar ddrws y bedd; ac ar ganol y llawr y mae'r maen ei hunan, neu yn hytrach ddarn o hono, tua 18 modfedd ysgwar. Mae yn ystafell y Bedd Santaidd 42 o lampau o aur ac arian yn llosgi yn barhaus. Gerllaw (5) y mae *oratory* y Coptiaid, ac ar ochr orllewinol y Rotunda y mae (6) Capel y Syriaid, ac oddiyma trwy ddrws eir i mewn i ogof, ac yma gyda help canwyllau dangosir beddau Joseph o Arimathea a Nicodemus. Yn y Rotunda etto, ac ar yr ochr ogleddol, y mae (7) Ffynnon Helena. Mewn man arall yma dangosir (8) darn o farmor yn y *pavement*, lle y dywedir i Grist ymddangos i Mair Magdalen yn nghyffelybrwydd garddwr. Ychydig droedfeddi yn mhellach ceir careg arall tebyg i seren i ddynodi y man y safai Mair. Oddiyma eir i (10) *Gapel y Drychiolaeth*, am mai yma yn ol traddodiad yr ymddangosodd yr Arglwydd i Mair ei fam ar ol ei adgyfodiad. Mae'r capel yma yn 28 troedfedd wrth 21. Dangosir man yr ymddangosiad gan gareg ar ganol y llawr. Rhwng y gareg yma a'r allor y mae slab o farmor yn nodi y man y gosodwyd y croesau wedi eu darganfyddiad gan Helena, a'r man y cafwyd allan y *wir* groes trwy wyrth (11). Ar y dehau y mae (12) darn o golofn o porphyry, a elwir colofn y fflangelliad, am mai wrthi y rhwymwyd yr Iachawdwr i'w fflangellu wrth orchymyn Pilat. Mewn man arall dangosir (13) "Carchar ein Harglwydd," a gerllaw y mae allor, dan yr hon y mae careg a dau dwll ynddi yn dwyn yr enw (14) "Rhwymau Crist." Ar y ffordd i'r Eglwys Roegaidd y mae'r ddau olaf. Yn yr Eglwys yma dangosir (15) allor y Groegiaid, (16) Gorsedd y Patriarch, (17) Eisteddle Patriarch Jerusalem, (18) Eisteddleoedd Patriarchiaid ereill. Dan senter y lanter y mae cylch o *bavement* marmor (19) yn nodi y man hwn, yn ol traddodiad sydd mor hen a'r 8fed ganrif, fel canolbwynt y ddaear. Dywed traddodiad diweddarach mae o'r fan yma y cymmerwyd y clai i wneuthur Adda o hono. Yn nesaf, wedi myned allan oddiyma, ac ychydig i'r dwyrain, yr ydym yn dyfod at allor wedi ei chyssegru i St. Longinus, y canwriad, yr hwn, yn ol efengyl Nicodemus a drywanodd yr Iachawdwr â'i gleddyf. Yma gynt y dangosid y teitl osododd Pilat ar y groes, ond y mae wedi ei symmud yn awr i Rufain, lle y gellir ei weled gan y ffyddloniaid yn Eglwys *Santa Croce in Gerusalemme*. Ychydig bach o'r fan yma y mae (21) "Capel Rhaniad y Gwisgoedd," wedi ei adeiladu ar y fan lle y rhanodd y milwyr wisgoedd yr Iesu rhyngddynt. Ac o fewn ychydig droedfeddi y mae'r drws (22) sydd yn arwain i Gapel Helena, ac heb fod yn mhell y mae allor (23) wedi ei chyssegru i St. Dimas, y *Lleidr Edifeiriol*, ac heb fod yn mhell y mae allor (24) i St. Helena, ac yn y mur gerllaw y mae'r (25) gadair o farmor, yn yr hon yr eisteddai Helena pan yn goruchwylio yr ymchwiliad am y wir groes yn yr ogof islaw. Eir i waered dros 12 o risiau i (26) Gapel Darganfyddiad y Groes. Mae'r ogof yma yn 20

troedfedd yn groes iddi, ac wedi ei thori allan o'r graig. Yma yn ol traddodiad cafwyd y tair croes, y goron ddrain, yr hoelion, yr argraff, &c. Ar naill ochr y mae allor a chroes (*crucifix*) yn awr i ddangos yn gywir y man lle bu'r *wir groes* yn gorwedd mewn dianrhydedd am dri chanrif. Edrycha'r mynachod a'r pererinion gyda pharch neillduol ar y capel yma, ac ant i mewn gyda llawer o wylo ac ochain—a pha ryfedd, gan fod eu harweinyddion ysprydol yn cyfeirio eu bysedd at y gwelydd ac yn dangos iddynt *y modd y mae'r creigiau etto yn wylo o goffadwriaeth am dygwyddiadau a gymmerasant le yma!* Oddiyma yr awn at *Gapel y Gwawdio*, ac yma islaw yr allor y mae darn o golofn ar yr hwn y gorfododd yr Iuddewon yr Iesu i eistedd "tra'r oeddynt hwy yn ei goroni â drain, ac yn ei daro, ac yna yn dywedyd wrtho mewn gwawdiaith farbaraidd, "Proffwyda i ni pwy yw yr hwn a'th darawodd." Ychydig yn nes yn mlaen (30) y mae 18 o risiau yn arwain i *Gapel Golgotha*. Ystyr y gair yw "penglog." Yr un yw Calvaria. Nid yw byth yn cael ei alw yn fynydd na bryn yn yr Ysgrythyr. Mae traddodiad sydd yn myned yn ol mor bell ag Origen, yn dywedyd fod corff Adda wedi ei gladdu fan yma. Gerllaw yma y mae *Capel Dyrchafiad y Groes*. Yma (31) y safai y groes. Gwelir y tyllau lle y safai y ddwy groes ereill hefyd, un ar bob tu. Yn nesaf i hwn y mae (32) *Capel y Croeshoeliad*. I fod yn fyr ni wnaf ond enwi (33) *Capel Adda*, (34) Bedd Godfrey, (35) Bedd Baldwin, (36) Bedd Melcizedec, ac yn olaf (37) y rhwyg a wnaed yn y graig yn amser y croeshoeliad.

Fe wel y darllenydd fod yma gydgrynhoad o adgofion hynod, ond y mae yn gofyn ffydd gref cyn y gellir credu yr hanner. Fel yma y tybia rhai eu bod yn parchu crefydd, ac yn parchu yr enwogion ag enwau y rhai y cyssylltir y gwahanol leoedd crybwylledig. Ac yn ddiamheu oni bai fod y peth yn cael ei gario i eithafion, mae tuedd mewn pethau fel yma, pe gellid eu cadw o fewn cylch rhesymoldeb, i gyffroi teimlad dwys a difrifol iawn. Ond fel y mae nid yw ond yn cynnyrchu teimlad o dosturi at anwybodaeth ac ofergoeledd y bobl a gredant ynddynt.

---

## CYFARFOD CHWARTEROL Y PASG.

Cynnaliwyd y Cyfarfod uchod eleni yn yr Onenfawr, ger Llandeilo, dyddiau Mercher a Iau, y 19eg a'r 20fed o Ebrill. O'r gweinidogion yr oedd yn bresenol y Parchedigion T. Thomas, Pantydefaid; William Rees, Rhydygwin; William Thomas, M.A., Llwyn; E. W. Lloyd, Cwmbach; John Evans, Gellionen; R. C. Jones, Llanbedr; William James, B.A., Aberdar; William Davies, Penrhiw; a'r Meistri Walter J. Evans, o Goleg Iesu, Rhydychain; a J. Gwenogfryn Evans a J. Hathren Davies, o Goleg Caerfyrddin. Dechreuwyd y gwasanaeth nos Fercher gan y Parch. William Davies; yna pregethodd y Parch.

R. C. Jones oddiar Mat. xi. 12, "Ac o ddyddiau Ioan Fedyddiwr hyd yn awr, yr ydys yn treisio teyrnas nefoedd, a threiswyr sydd yn ei chipio hi." Llefarodd yn benaf ar oruwchafiaeth yr ysprydol ar yr anianol mewn dyn. Nododd mai i'r graddau y byddo enaid dyn wedi ymdebygoli i Dduw, y bydd teyrnas nefoedd wedi cymmeryd meddiant o hono. Pan fyddo yr ysprydol wedi gorchfygu yr anianol, bydd teyrnas nefoedd wedi gorphen ei gwaith yn y byd, a dyn wedi ateb dyben ei anfoniad. Ar ei ol pregethodd y Parch. William Rees oddiar Gal. vi. 7, "Na thwyller chwi: ni watworir Duw; canys beth bynag a hauo dyn, hyny hefyd a fêd efe." Traethodd yn fwyaf ar gyfrifoldeb dyn. Dywedodd fod yn rhaid i bob dyn sefyll neu syrthio ar ei deilyngdod ei hun, ac mai gwanwyn bodolaeth yw y tymhor i hau hadau rhinwedd. Dangosodd y gwrthuni o ddysgwyl dedwyddwch oddiwrth fywyd anfoesol, yr hyn a alwai ef yn watwor yn erbyn Duw.

Aethpwyd drwy ranau defosiynol gwasanaeth boreu dydd Iau gan y Parch. William Thomas, M.A. Traddodwyd y bregeth gan y Parch. William James, B.A., y pregethwr appwyntiedig. Ei destyn ydoedd Mat. xviii. 20, "Canys lle mae dau neu dri wedi ymgynnull yn fy enw i, yno yr ydwyf yn eu canol hwynt." Traethodd ar yr Eglwys Gristionogol yn ei gwahanol agweddau a chyfnodau, pob cangen o'r hon sydd yn ymffrostio mai hi yw y wir Eglwys; ond yr oedd ef o'r farn nas gall un enwad hawlio yr enw o wir eglwys os na fydd yn feddianol ar yspryd Crist. Dau neu dri, neu unrhyw nifer, wedi ymgynnull mewn unrhyw fan neu fodd yn yspryd Crist, a gyfansoddant Eglwys Gristionogol. Ar ol y bregeth, cynnaliwyd cynnadledd, dan lywyddiaeth y Parch. John Evans, gweinidog y lle. Yn ol yr arferiad, rhoddwyd gwahoddiad i'r sawl a fynai i roddi unrhyw ofyniad i Mr. James ar ei bregeth; ond ni ddaeth neb yn mlaen. Yna galwodd y cadeirydd ar y Parch. E. W. Lloyd yn mlaen i ddarllen papyr ar y Pwnc, sef, "Pwy all fod yn gadwedig?" Ni chynnygiaf wneyd braslun o'r papyr rhagorol hwn, ond yn hytrach rhoddir ef yma yn gyflawn, trwy ganiatad yr awdwr:—

### PWY FYDD GADWEDIG?

Cyn rhoddi ateb i'r gofyniad pwysig yma, yr hwn yn ddiau sydd wedi peri i lawer o ddynion i ofidio a gwangaloni o bryd i bryd wrth feddwl y gallant hwy fod tu faes i gylch cadwedigaeth, gweddus ddigon i ni, yn gyntaf peth, yw chwilio i mewn er cael ar ddeall beth yw ystyr y gair *cadwedigaeth*, ac yna hawddach gwaith fydd rhoddi ateb i'r gofyniad, Pwy fydd gadwedig? Y mae dyn, fel y mae yn ymddangos i mi, yn rhwym o fod yn gadwedig yma cyn y gall fod yn gadwedig yn ol llaw. O'r tu arall, os yw yn golledig yma, y mae yn sicr o fod yn golledig yn ol llaw, oblegyd nid oes na gwaith, na gwybodaeth, na dychymyg yn y bedd, i'r hwn yr ydym oll yn cyflym deithio. Os hau i'r cnawd, medi o'r cnawd; ond os hau i'r yspryd, medi o'r yspryd. Y mae cadwedigaeth neu achubiaeth yn golygu, medd Swedenborg, "i ryddhau oddiwrth farwolaeth dragwyddol, i gipio allan o uffern, ac i dynu allan o ddwylaw y diafol y sawl oeddynt wedi eu harwain yn gaeth a rhwym."—(Gwel *True Christian Religion*, tud. 117.) Wn i ddim llai nad yw'r esponiad eithafol yma yn un lled boblogaidd, ond nid yw yn cyfleu yn gywir feddwl y gair gwreiddiol, yr hwn sydd yn dynodi "cadw, gwneyd yn ddyogel, i ryddhau, i wella, i wneyd yn ddyogel, i ddyogelu rhag unrhyw niwed." Y mae yn amlwg, gan hyny, fod y dyn sydd gadwedig mewn cyflwr dyogel—yn ddyn nad yw yn dyoddef poen nac unrhyw anes-

mwythder gyda golwg ar ei ddyogelwch. Y mae yn teimlo ei fod yn sefyll ar dir dyogel, ac mewn cymmundeb melus â Iesu Grist, ac â goreuon y ddaear. Y dyn cadwedig mewn ystyr ysprydol, gan hyny, feddyliwn ni, yw y dyn hwnw sydd wedi cael ei ryddhau oddiwrth bechod trwy ddylanwad yr Efengyl, neu ddysgeidiaeth Iesu Grist; dyn sydd yn gallu dweyd yn gydwybodol mai ei "fwyd a'i ddiod yw gwneuthur ewyllys ei Dad, yr hwn sydd yn y nefoedd;" dyn sydd yn teimlo mai gwirionedd yw y dywediad yma o eiddo ein Hiachawdwr, sef, "teyrnas nefoedd o'ch mewn chwi y mae." Bod yn gadwedig yw bod yn un â Duw a'i Grist Ef; bod yn rhydd oddiwrth afaelion gwenwynol pechod, ac ymgyfoethogi mewn gweithredoedd da; bod fel pren ar lan afonydd dyfroedd; dal cymmundeb ysprydol parhaus gyda Duw y nef, a "gadael i'n goleuni i lewyrchu yn mhlith ein cyd-ddynion, fel y gwelont ein gweithredoedd da, ac y gogoneddont ein Tad yr hwn sydd yn y nefoedd." Bod yn gadwedig, mewn gair, yw bod yn debyg i Dduw, a theimlo gwynfydedigrwydd y berthynas nefol sydd yn bodoli rhyngom ni ag Ef; bod yn rhydd oddiwrth bob peth sydd elynol i'n cyssur, neu ein dedwyddwch uwchaf a phuraf. Y dyn cadwedig, gan hyny, yw yr hwn mae Iolo yn rhoddi desgrifiad o hono wedi iddo ofyn,—

"Pa ddyn, fy Nuw! 'n fuchedd hon,
Sydd gymmeradwy ger dy fron,
Yn un o'th blant, a'i annedd ef
O fewn i'th Lys yn Nheyrnas Nef?"

Ei ateb yw,—

"Y pur ei galon, glân ei law,
Saif ef o'th flaen, ac yn ddifraw;
Saif yn dy nerth, ag enaid llon,
Dros fyth yn deilwng ger dy fron.

Hwn ydyw'r dyn difydol flys
A gaiff ei drigfan yn dy Lys;
B'wyf megys hwn, fy nefol Ri!
A'm holl ymarwedd ynot Ti."

Yn awr nid oes yr un anhawsdra ar ein ffordd i ateb yn foddhaol y gofyniad, "Pwy fydd gadwedig?" sef pob dyn sydd wedi dyfod i gyflwr iach; pob dyn sydd yn gwneyd ei oreu "er ei gael ganddo Ef mewn tangnefedd;" pob dyn sydd yn sychedu am gyfiawnder a gwir santeiddrwydd, ac yn ymborthi ar ymborth teulu y nef. Mewn gair, pob dyn da.

Gwir yw nad yw yn ngallu pob dyn i gyrhaedd gwybodaeth eang iawn o'r gwyddorau a'r celfyddydau. Nid yw yn ngallu pawb i fod yn Newtons, ac athronwyr enwog ereill, sydd wedi anfarwoli eu hunain oblegyd eu gwybodaeth eang. Ni all pawb fod mor wybodus ag y dymunent fod, ac oblegyd hyny yr ychydig sydd wedi arwain y lluaws yn mhob oes. Yr ychydig sydd wedi bod yn offerynau yn llaw Duw i ddihuno y lluaws o'u cysgadrwydd ysprydol, ac i gyfeirio eu meddyliau at y maesydd hyny o wybodaeth sydd lesiol a meithrinol i'r enaid dynol. Ni all pawb gyrhaedd enwogrwydd ar gyfrif eu cyfansoddiadau barddonol a rhyddiaethol meistrolgar, ac ni all pawb wefreiddio ereill â'u dawn a'u athrylith; ond gall pawb, serch hyny, fod yn gadwedig; gall pawb ymgyrhaedd at y rhagoroldeb moesol hwnw a ddygwyd i'r amlwg yn nghymmeriad Pentywysog a Pherffeithydd ein ffydd ni. Ni all pawb dori geiriau mor fawr a chwyddedig yn mhresenoldeb Duw â'r Pharisead, yr hwn oedd yn mhell pell o fod yn gadwedig; ond gall pawb ddywedyd, a theimlo wrth ddywedyd, fel y teimlai y Publican pan ar ei ddeulin o flaen Duw, "O Dduw, bydd drugarog wrthyf fi bechadur." Acth hwnw i'w dŷ wedi ei gyfiawnhau yn fwy nâ'r llall. Gall pawb ddywedyd, "Codaf ac âf at fy Nhad," a gwneyd daioni; ac mor gynted ag y bydd pawb yn gwneyd felly, byddant, yn ol ein barn ostyngedig ni, yn gadwedig, a dim cyn hyny. Efallai nad yw y sylw yma yn un ag y cytuna llawer o Gristionogion â ni yn ei gylch. Pwys mawr iawn sydd wedi cael ei osod—gormod felly o lawer, feddyliwn ni,—ar opiniynau neu ddaliadau crefyddol cywir, fel y dywedir. Gormod o bwys sydd wedi cael ei osod ar yr hyn sydd yn myned yn fynych iawn dan yr enw *ffydd*. Na feddylied neb ein bod ni yn siarad yn ysgafn am opiniynau neu syniadau crefyddol, oblegyd credwn ni fod y cyfryw yn dylanwadu o angenrheidrwydd ar ein hymddygiadau neu ein rhodiad yn y byd. Er enghraifft,

os bydd dyn yn credu yn drwyadl mai *cariad yw Duw*, ni all lai nâ siarad yn uchel am dano, ac ymdebygoli iddo. Os ydym yn dal syniadau goruchel am Ei raglunaeth a'i ymdriniadau â ni ei blant o ddynol ryw—os ydym yn credu mai ein Tad a'n Hewyllysiwr goreu ydyw, ni allwn lai nâ bod yn blant ffyddlon iddo, ni allwn lai nâ chadw Ei orchymynion, ac ymhyfrydu yn y cyflawniad o'r gweithredoedd hyny mae yn gorchymyn i ni eu cyflawni. O'r tu arall, os edrychwn arno fel bod llidus, anfaddeugar, ac fel un sydd yn ymhyfrydu mewn gwneyd ei blant yn annedwydd, y mae yn bossibl i ni ei ofni ag ofn slafaidd, ond ni allwn ni ddim ei garu. O ganlyniad, nid peth dibwys yw ein ffydd am Dduw ac yn Nuw. Y mae a fyno ein syniadau am Dduw â'n dedwyddwch yn ddiau; ond pan ydym yn clywed dynion yn condemnio i dragwyddol wae eu cyd-ddynion am ddal syniadau crefyddol croes i'w heiddo hwy, tueddir ni i ofyn, "Pwy wyt ti yr hwn wyt yn barnu gwas dyn arall? I'w Arglwydd ei hun y mae pob dyn yn sefyll neu yn syrthio. Pwy sydd wedi dy wneuthur di yn farnwr meddyliau dynion? Ie, ti yr hwn wyt yn agored i gamsynied, trwy alw tywyllwch yn oleuni, a goleuni yn dywyllwch, y drwg yn dda, a'r da yn ddrwg? Dos yn fy ol i, Satan. I Dduw a chydwybod yr wyf yn atebol am fy syniadau crefyddol, ac nid i ti. Diolch i ti am bob cymhorth elli roddi i mi i ddeall gair Duw yn well, a'm perthynas rhyngwyf ag Ef; diolch i ti am fy helpu i ddyfod yn well, yn burach, a mwy tebyg i Dduw; ond paid er dim a gosod ffin derfynol o'm blaen, tu hwnt i'r hon yr wyt yn rhoddi gorchymyn caeth i mi beidio myned." O'r cychwyn hyd yn bresenol, y mae dyn wedi profi ei hun yn greadur blaen-fynedol, ac ar gynnydd mae yn gweddu iddo fyned yn barhaus yn mhob gwybodaeth; yn hyny mae ei iachawdwriaeth yn gynnwysedig; a phwy bynag sydd yn diwyllio ei dalentau i'r graddau pellaf dichonadwy iddo—pwy bynag sydd yn ofni Duw ac yn cadw ei orchymynion—pwy bynag sydd yn byw yn ffyddlon yn ol y goleuni uwchaf a mwyaf cyssegredig yn ei olwg, y mae o angenrheidrwydd yn rhwym o fod yn gadwedig. Na, nid felly, meddir yn Llyfr Gweddi Cyffredin Eglwys Sefydledig ein gwlad, oblegyd "Pwy bynag a fyno fod yn gadwedig, o flaen dim rhaid iddo gynnal y Ffydd Gatholig, yr hon ffydd, oni's ceidw pob dyn yn gyfan ac yn ddihalog, diamheu y collir ef yn dragywydd. A'r Ffydd Gatholig yw hon: Bod i ni addoli un Duw yn y Drindod, a'r Drindod yn Undod." Felly yn ol y ffydd hon, nid oes bywyd tragwyddol i neb ond i'r sawl sydd yn ei chredu, sef yr athrawiaeth o Dduwdod y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân. Ond dywed yr hwn a gredwn ni fod geiriau bywyd tragwyddol ganddo,—"A hyn yw y bywyd tragwyddol, iddynt dy adnabod di yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonaist ti, Iesu Grist." A gwell o lawer genym ni ymddiried yn y geiriau yma o eiddo Iachawdwr ysprydol y byd, nâ geiriau y person hwnw sydd yn myned dan yr enw Sant Athanasius.

Ymddengys i ni na all yr hwn sydd wedi dyfod i adnabyddiaeth o'r gwir Dduw, ei gariad, ei dadoldeb, a'i ddybenion da, lai nâ bod yn gadwedig; oblegyd wedi iddo ddyfod i iawn adnabyddiaeth o hono Ef, dyna fe yn y nefoedd yma, ac ni all dim ond nefoedd fod yn ei aros yn ol llaw. "Ie," meddai ereill etto, "rhaid yw credu yn Iesu Grist er bod yn gadwedig," wrth yr hyn maent yn golygu, nid credu yn yr Iesu fel dysgawdwr a chenad awdurdodedig Duw i'r byd, a dilyn ei ol trwy glod ac annghlod, ond credu yn ei aberth iawnol ar bren y groes, neu gredu iddo ddofi llid y person cyntaf yn y Drindod trwy ei ddyoddefiadau gwaradwyddus arno. Yn awr, ymddengys i ni nad oes a fyno yr athrawiaeth yma ag iachawdwriaeth dyn, ac nid ydym ni yn credu y gwyddai'r Iesu pur a llafurus, i'r hwn y rhoddwyd yr ysbryd uwchlaw i fesur, ddim am dani. Ond fe ddywedir wrthym, "Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig fyddi." Eithaf gwir; ond nid rhyw gred oddefol yn ddiau a olygir wrth y gair *cred* yn yr adnod ddim; nid credu ei fod wedi marw ar bren y groes i atal llid y nefoedd ddim; nid credu fod y fath berson wedi bod yn y byd yma, ac wedi cyflawni gweithredoedd rhyfeddol yn unig ychwaith; ond credu ynddo yn y fath fodd ag y byddom yn cael ein cyfnewid i'r unrhyw ddelw ag ef, a'n gwneuthur yr un mor awyddus ag yntau i weithredoedd da; ffydd ynddo fyddo yn dylanwadu arnom yn y fath fodd ag y byddom yn cael ein gwneyd yn un ag ef yn ein hymdrechiadau i blanu ei egwyddorion yn nghalonau dynion; ac os ydym yn gwneuthur felly, yr ydym ac a fyddwn yn gadwedig.

Rhaid yw terfynu gyda dweyd y gall pob dyn garu Duw a charu dyn; gall pob dyn ymddwyn tuag at ereill fel y dymunai i ereill ymddwyn tuag ato ef; gall pob

dyn wneuthur barn, hoffi trugaredd, ac ymostwng i rodio yn isel gyda Duw; ac os yw yn gwneuthur felly, y mae yn sicr o fod yn gadwedig, ac y mae yr un mor sicr y bydd yn gadwedig yn y dyfodol.

Yr oedd y Parch. R. C. Jones o'r farn fod cadwedigaeth y Cristion yn gynnwysedig yn ei ffydd ddofn yn ei Dad nefol, ac fod y ffydd hon yn blaguro, blodeuo, a ffrwytho yn ei holl ymddygiadau.

Dywedai y Parch. William Thomas, M.A., fod cadwedigaeth yn gynnwysedig mewn gwneuthur y defnydd goreu o'n manteision presenol.

Credai y Parch. T. Thomas, fod cadwedigaeth dyn yn ymddibynu ar gyflawnder ei wir ddedwyddwch, sef dedwyddwch parhaol, ac nad oes *royal road* i gyrhaedd y dedwyddwch hwn, ond fod yn angenrheidiol i bob un "ymgadw rhag pob rhith drygioni, drwy ymwadu ag annuwioldeb a chwantau bydol, a byw yn sobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol yn y byd sydd yr awr hon."

Ar ol appwyntio y Parch. J. Evans, Gellionen, i ddarllen y papyr ar "Natur yr Eglwys Gristionogol" yn y cyfarfod blynyddol, yr hwn a gynnelir yn Llanbedr, diweddwyd y cyfarfod drwy weddi gan Mr. Lloyd.

Dechreuwyd cyfarfod y prydnawn gan y Parch. R. C. Jones. Yna pregethodd y Parch. William Thomas, oddiwrth 1 Cor. iii. 11—13: "Canys sylfaen arall nis gall neb ei osod, heblaw yr un a osodwyd, yr hwn yw Iesu Grist. Eithr os goruwch adeilada neb ar y sylfaen hon, aur, arian, meini gwerthfawr, coed, gwair, sofl: gwaith pob dyn a wneir yn amlwg: canys y dydd a'i dengys, oblegyd trwy dân y dadguddir ef; a'r tân a brawf waith pawb, pa fath ydyw." Llefarodd ar y grefydd Gristionogol mewn tair agwedd. I. Y sylfaen. II. Yr oruwch adeiladaeth. III. Y prawf. Gosododd Crist sylfaen gadarn drwy gydgordiad ei fywyd a'i egwyddorion, a thrwy ei waith yn caru ei argyhoeddiadau yn fwy na'i fywyd. Mae y gwahanol ddiwygwyr o amser Crist hyd yn awr wedi bod yn ddiwyd gyda'r gwaith o oruwch-adeiladu, ac ar rai adegau ymddangosai y sylfaen fel wedi ei gorchuddio. Y mae llawer ffordd i ddangos gwaith dyn "pa fath ydyw"—llawer o dreialon, &c. Pregethodd y Parch. E. W. Lloyd, oddiar Heb. xii. 29.—"Oblegyd ein Duw ni sydd dân ysol." Siaradodd yn fwyaf neillduol ar gymmeriad tadol Duw.

Er fod yr hin yn dra anffafriol, etto daeth nifer luosog o ddyeithriaid yn nghyd, ac yn eu plith lawer o frodyr Trindodaidd. Cafwyd pregethau godidog, ac ymddangosai y gweinidogion yn eu hwyliau goreu pan yn traddodi yr egwyddorion pur ac anwyl a broffesir genym. Gobeithiaf y bydd i'r gawod faethlon hon o wirioneddau brofi yn fendith i'r gymmydogaeth, ac y bydd i gorlan fechan yr Onenfawr fyned yn y blaen o nerth i nerth, gan dori hualau rhagfarn, a thywallt yspryd rhyddymofyniad ar drigolion yr ardal yn gyffredinol, a bod "nid yn ddiog mewn diwydrwydd, yn wresog yn yr yspryd yn gwasanaethu yr Arglwydd."

*Coleg Caerfyrddin.* J. Hathren Davies.

# Adolygiad y Wasg.

"THE CHRISTIAN LIFE:" *A Unitarian Journal.*

Dyma enw cyhoeddiad newydd Mr. Spears. Yr ydym newydd weled y rhifyn cyntaf, ac i bob ymddangosiad y mae'n addawus iawn. Mae'r argraffiad cyntaf wedi ei werthu i gyd, fel y mae llawer wedi gorfod myned hebddo. Ei bris yw dwy geiniog, gyda'r post 2½c.

---

"IN SEARCH OF TRUTH:" *Conversations on the Bible and Popular Theology. For Young People. By Amy. Trübner & Co.*, 1875.

Llyfr bychan cynnwysedig o 138 tudal. yw hwn, wedi ei ysgrifenu mewn iaith syml a dealladwy. Y prif amcan mewn golwg gan yr awdures, fel mae yn awgrymu yn y rhagymadrodd i'r gwaith, ydyw gwneyd y meddylddrych yma mor amlwg ag sydd bossibl, sef, mai hanfod crefydd yw cariad at Dduw a dyn, yr hyn ddylai gael ei ddangos yn ein cyflawniadau a'n bywyd dyddiol. Y mae yn ddiau yn nghorff y llyfr lawer o bethau a ystyrir gan y rhif luosocaf o'n cyd-gristionogion yn gyfeiliornus iawn, ac oblegyd hyny ni osodent ef yn nwylaw eu plant, hyd y nod pe gallesid eu darbwyllo i'w ddarllen eu hunain. Wedi hir gynnefino ag hen syniadau poblogaidd am y Beibl, gwaith anhawdd iawn ydyw perswadio dynion i gymharu syniadau ereill gyda'r cyfryw; ond pe gwnelent ddarllen y llyfr hwn yn ofalus, y mae yn beth possibl ddigon, er wfftio wrth wneuthur felly, y buasai ei gynnwysiad yn dylanwadu arnynt i ryw raddau i ddal syniadau gwahanol i'w rhai presenol ar yr hanesion * * * y traethir arnynt ynddo.

Er nad ydym ni yn cytuno a phob peth mae Amy yn ddweyd, ni allwn lai na chymmeradwyo ei hyspryd a'i dymuniadau da, a galw sylw y darllenydd at ei llyfr a'i gymhell i'w ddarllen yn ofalus, ac yna i farnu drosto ei hunan yn nghylch teilyngdod ei gynnwysiad. Y mae yn sylwi gyda pheth manylrwydd ar brif hanesion cyntaf yr Hen Destament, ac yn manylu ar eu hannghytundeb, ac ar yr anhawsderau a'r amheuon sydd yn debyg o ymgynnyg i'r meddwl wrth eu darllen yn bwyllog, fel maent ar lawr, ac yna yn gwneyd yn amlwg, o leiaf mor amlwg ag y gall, trwy gynnorthwy ysgolheigion Beiblaidd yr oes bresenol, ac yn ymdrechu dangos trwy yr oll fod y Beibl yn sicr o ymddangos mewn goleu mwy dysglaer wedi chwilio i mewn iddo yn onest, a barnu ei gynnwysiad mewn modd rhydd a diofn, nag wrth ei ddall-addoli, ac felly yn cau y llygaid ar ei ddiffygion a'i ragoriaethau. Y mae wedi ei ddosparthu i bedwar ymddyddan ar ddeg, y rhai a gymmerasant le (meddir) rhwng Modryb Amy ac ereill, ar gynnifer a hyny o brydnawnau Sul. Nid yw yr un bennod yn rhy faith i flino amynedd yr ieuanc wrth ei darllen. Yr ydym ni wedi cael llawer o bleser wrth ddarllen y rhan fwyaf o'r ymddyddanion, yn neillduol felly y tri olaf. A. J. T.

## COLEG CAERFYRDDIN.

Mae'r Parch. G. Vance Smith, B.A., Ph.D., D.D., o Sheffield, wedi ei appwyntio yn brif athraw y coleg uchod. Mae Dr. Smith yn foneddwr o gryn bwys yn yr enwad Undodaidd. Bu unwaith yn athraw yn Ngholeg Manchester New; ac mae'n aelod o'r *committee* sydd yn bresenol yn adolygu y Testament Newydd. Efe, gyda Proff. Scott Porter, ddarfu gwbilhau a chyhoeddi cyfieithad Wellbeloved o'r Hen Destament. Rhyw dair neu bedair blynedd yn ol, cyhoeddodd "The Bible and Popular Theology," ac yn ddiweddarach drachefn cyhoeddodd "The Spirit and the Word of Christ," dau lyfr a ystyrir yn dra gwerthfawr. Dymunwn iddo bob llwyddiant yn ei gylch newydd.

---

Gallwen gasglu cynhauaf toreithiog trwy ddarllen, ond myfyrdod yw y peiriant nithio.

Llusern Traed.—Un o'r pethau mwyaf dyddorol yn Palestina yw y ffaith y cyfartydda dyn yn ddyddiol a nosol â phethau sydd yn esponio gair Duw. Y mae ystrydoedd Jerusalem yn gul iawn, ac ni chaniateir i un dyn fyned allan iddynt ar hyd y nos heb oleuni. Taflweh eich ffenestr yn agored yn yr hwyr, ac edrychwch allan, a gwelweh yr hyn sydd yn ymddangos i fod yn ser bychain yn goleuo y palmant. Clywch swn y sandalau fel mae y teithiwr yn myned ei ffordd. Fel y mae y person neu amryw bersonau yn nesu atoch, canfyddwch lamp fechan wedi ei chylymu wrth eu traed, fel y byddo y cerddediad yn ddyogel. Mewn ciliad y mae yr adnod hono yn dyfod i'r meddwl, yr hon a ysgrifenwyd yn y ddinas uchod o gylch 3,000 o flynyddau yn ol,—"Llusern yw dy air i'm traed, a llewyrch i'm llwybr." Os rhodiwn yn ei oleuni ef, ni allwn fyned ar gyfeiliorn.

Y Ffordd i gael Cwsg.—Mae pa fodd i gael cwsg yn fater o bwys mawr i lawer. Yn gyffredin mae personau *nervous*, y rhai a flinir gan ddiffyg cwsg ac anesmwythder, yn dyoddef oddiwrth ffrydiad y gwaed ar yr ymenydd, a cheir fod eu haelodau yn oerion y rhan fynychaf. Mae dirwasgiad y gwaed ar yr ymenydd yn ei gadw mewn sefyllfa gynhyrfus a digwsg, a'r curiadau yn y pen yn boenus yn fynych. Bydded i'r cyfryw ag sydd yn dyoddef felly godi a rhwbio y corff a'r aelodau yn dda a thywel garw, er hyrwyddo cylchrediad, a dwyn y gormodedd gwaed o'r ymenydd, a bydd iddynt syrthio i gwsg mewn ychydig fynydau. Mae ymdrechi neu ysbyngu mewn dwfr oer, rhedegfa dda, cerdded yn galed, neu fyned i fyny ac i lawr y grisiau amryw weithiau yn union cyn myned i orphwys yn foddion rhagorol i reoleiddio y cylchrediad a hyrwyddo cwsg. Mae y rheolau hyn yn syml a hawdd i'w dwyn i weithrediad yn y bwthyn fel y palas, a gallant weinyddu cyssur i filoedd a fyddent barod i dreulio llawer o arian ar foddion esmwythaol er hyrwyddo "Balmaidd gwsg, adferydd melus natur."

# Marwgofion.

Dydd Mercher, y 22ain o Fawrth, yn 51 oed, bu farw Jenkin Griffiths, Pontfaen a Bronfre, ger Aberayron. Claddwyd ef y Sadwrn canlynol yn mynwent Cilie. Yn Pontfaen cyn cychwyn o'r angladd, pregethodd y Parch. T. Thomas. Yr oedd yr angladd yn un o'r mwyaf os nid y mwyaf a welodd yr ysgrifenydd—prawf ei fod yn ddyn a berchid yn fawr gan lawer yn mhell ac agos. Treuliodd foreuddydd ei fywyd ar y môr; rhoddodd yr alwedigaeth honno i fyny, a threuliodd y gweddill o'i amser fel ffermwr a choedlaelwr (*timber-merchant*); yr ydoedd yn un o Farm Griffiths & Co., Aberayron. Gadawodd wraig dda a phlant anwyl i alaru ar ei ol. Digon tebyg fod y bobl graffus hyny sydd yn gweled y brychau yn llygaid eraill, yn dywedyd y perthynai iddo lawer o ffaelddau, gadawer iddynt.

Dydd Sadwrn, yr 8fed o Ebrill diweddaf, yn dra disymwith, bu farw Elizabeth Davies, chwaer Griffith Jones, Frowen, a David Jones, Castellelwyn, Pencarreg, yn 73 oed. Claddwyd hi y dydd Mawrth canlynol yn Capel-y-groes. Pregethodd y Parch. T. T. yn y Castell. Yr oedd yr ymadawedig yn fenyw ddiniwed a pharchus.

Ebrill 25, Thomas Davies, Blaenmaes, Pencarreg, ger Llanbedr, Ceredigion. Ymunodd ein brawd ymadawedig ag eglwys fechan Ty'nyrbwl, Y Bam, ar ei sefydliad Medi 27, 1874; ond bu yn cynchu am amser maith cyn hyny i Gaernoen—bnaidd bob Sabboth pan yn weddol iach. Trwy lawer o ymdrech yn herwydd gwendid corfforol ac afiechyd, dangosodd fy'ddlondeb neilldnol tuag at achos Iesu Grist. Bu yn ffyddlon hyd angau, canys yr oedd yn y capel y Sul diweddaf ond un cyn iddo ymadael oddiwrth ei waith a myned at ei wobr. Meddai ar nodweddion rhagorol, sef tymber fwynaidd, ac ysprydhaelfryd'ig, caredig, a thangnefeddus yn ei ardal. Gadawodd weddw a merch fechan i wylo ac i deimlo en colled ar ei ol; ond na foed iddynt alaru fel rhai heb obaith ganddynt, ond yn hytrach o lawer hoed iddynt ymgyssuro yn ngobeithion gwynfydedig Efengyl Crist. Hunodd ein brawd mewn tangnefedd yn 42 oed. Claddwyd ef y Sadwrn canlynol yn mynwent newydd eglwys Undodiaidd Llanbedr, Ceredigion. Gwelnyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. D. Evans, B.A., Maesymeillion. Efe ydoedd yr ail a gladdwyd yn y gladdfa newydd hon.—*Teifiryson.*

Ebrill 29ain, yn 79 mlwydd oed, bu farw John Williams, gynt o Red Lion, Llanbedr, a thad y presenol Mr. John Williams, Black Lion, Llanybyther. Yr oedd ei fethyd wedi bod yn wael am flynyddau lawer. Claddwyd ef yn mynwent Llanbedr, y dydd Iau canlynol. Pregethodd y Parch. T. T. yn ei angladd.

Mai 3ydd, David Bache, anwyl ac unig blentyn y Parch. R. C. Jones, Llanbedr. Claddwyd yr un brychan yn mynwent y Capel newydd. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan Mr. Thomas, Pantydefaid, Mr. Thomas, Llanfair, Mr. Davies, Alltyplatta, a Mr. Jones, Aberlane.

"Ni dlaeth y teg flodeuyn hyn
A gadd mor syn ei symmud,
Ond prin i ddangos pa mor hardd,
Yw blodau gardd y bywyd."

Mai 4ydd, yn 73 oed, John Lloyd, Gwarllwynoilos, Llandysiil Hebryngwyd ef i'w fedd yn ochr ei anwyl a'i unig fab yn mynwent Pantydefaid, y dydd Llun canlynol. Pregethodd y Parch. T. T., yn ei angladd. Bu yr ymadawedig am amser maith yn *agent* ar ystad Gallyrodyn, ac yr oedd iddo barch mawr fel y cyfryw. Gadawodd weddw ac un ferch i alaru ar ei ol; ond bydded iddynt gofio fod pob peth yn dduoeth ac yn dda.

Mai 6, Edwin, mab i William Griffith, Chemist, Pontyberem. Yr oedd rhywbeth yn Edwin er yn ieuanc yn wahanol i blant yn gyffredin—yn fwy henaidd ac addfed ei feddwl—yn debgeuch i rai henach mewn dyddiau nag i'w gyfoedion. Fel ag i'w blant eraill, bu ei dad yn ymdrechgar i roddi iddo fantesion addysg, a gwnaeth yntau ddefnydd da o honynt. Yn ystod ei flynyddoedd diweddaf, bu yn fs-athraw yn Ysgol Frytanaidd Pontyberem, ac yn y swydd hon ennillodd iddo ei hun gymmeradwyaeth mawr. Yr oedd yndio duedd reddfol at gyfrann yn gystal â derbyn addysg. Iddo ef yr ydoedd dysgu yn bleser ac nid yn boen. Yr oedd yndio fedr rhagorol i gadwyno sylw ei ddosparth at en gwersi, yn fwy trwy en gwisgo â dyddorleb deniadol nâ tharwy foddion gorthrethol, yr hyn ydyw cuddiad crytder pob athraw da. Yr oedd yn llanc ieuanc

talentog ac addawol iawn, a diau pe cawsai fyw, y cyrhaeddasai safle uchel mewn dysg a defnyddioldeb. Ond pan ydoedd ei wreiddiau megys yn ymledu, ei gangenau yn blaguro, a'i dalent yn ymddadblygu, ymaflodd y darfodedigaeth yn ei gyfansoddiad, ac hunodd yn yr angau heb fod ond 18 mlwydd oed. Daeth tyrfa luosog o bob gradd ac oedran yn nghyd i gyflwyno ei weddillion marwol i fynwes oer mynwent Caersalem, yno i aros nes y bydd—'Dorau beddau y byd ar un gair yn agoryd.' Blaenorid yr orymdaith angladdol gan blant yr ysgol ddyddiol, ac yr oedd galar a hiraeth yn argraffedig ar bob grudd o honynt. Bydded i ragluniaeth dyner y nef fod yn amddiffyn ac yn noddfa i'w rieni a'i berthynasau yn eu galar, a rhodded nerth iddynt i ddweyd gyda Job, – "Yr Arglwydd a roddodd, a'r Arglwydd a gymmerodd ymaith; bendigedig fyddo enw yr Arglwydd."—W. T.

# Barddoniaeth.

## DR. DAVID LIVINGSTONE.

(Ganwyd Mawrth 19, 1813, bu farw Mai 4, 1873).

Mae'r llinellau canlynol ar rai o eiriau olaf y teithiwr enwog :—"Codwch i mi fwth i farw ynddo. 'Rwy'n myn'd tua thref."

O codwch fwth im' farw ynddo,
Mewn hedd gadewch im' orwedd yno,
Ac im' Tad nefol godi llef ;—
'Rwy'n myn'd tua thref.

Mae drosodd 'n awr fy holl grwydriadau,
Mae'm cwch yn nesu'r tawel draethau,
Caf orphwys rhag y 'storom gref ;—
'Rwy'n myn'd tua thref.

Ar fin terfynu mae fy mywyd,
'Rwy'n marw mewn tangnefedd hyfryd,
Gerllaw, gerllaw mae porth y nef ;
'Rwy'n myn'd tua thref.

Mae 'ngwaith i drosodd, Brydain, gwna
Bob cais i orphen y gwaith da,
Rho'r caeth yn rhydd, a gwrando'i lef,
'Rwy'n myn'd tua thref.

Rho wawl a gwir i yru bant
Y gwyll, fel gallo duon blant
Hen Affrig wel'd ei oleu Ef,
'Rwy'n myn'd tua thref.

W. D.

## YR ANGYLION YN Y TY.

Tri phar o freichiau fel yr eira'n wyn
Mewn cofleidiadau tyner wrthyf glyment ;
A thri gwedd bach yn dyner ac yn dyn
Ar draws fy nghruddiau'n wresog a ymwasgent.

Tri phar o lygaid bychain dyfnion clir,
Y nozon hon edrychent yn fy llygaid ;
A nos da gefais a chusanau pur,
Oddiar wefusau melus tri anwyliaid.

Da fod "rhai bychain" yn ein caru ni ;
Ar dywyll lwybrau'n ffydd y mae'n goleuo,
Drwy wybod i'r bendigaid Iesu cu
Unwaith orchymyn dwyn "rhai bychain" ato !

A d'wedyd "Eiddo'r cyfryw rai yw'r nef,"
Bendithiodd hwynt a chym'rodd hwy 'n ei freichiau !
Pan y gadawant ni, ant ato Ef,—
Mae gwybod hyn yn felus i'n honeidiau.

Ac etto chwi'r angylion yn fy nhy,
Tri bychan s'yn fy nghalon yn cartrefu !
Pe d'wedai'r Arglwydd "Nid yr eiddot ti
'R angylion hyn," gwnai rwygo 'nghalon trwyddi.

AN.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.

S. D., Coed-Park; D. T., Llwyn.

## Y CYFARFOD BLYNYDDOL.

Dymunaf hyspysu darllenwyr Yr Ymofynydd y bydd y Cyfarfod Blynyddol eleni yn Llanbedr, ar y 5ed a'r 6ed o Orphenaf, yn dechreu am 6 dydd Mercher, ac am 10 dydd Iau. Y Parch. R. J. Jones, M.A., sydd i bregethu y bregeth. Pwnc—"Natur yr Eglwys Gristionogol." Carem weled llawer o weinidogion ac ereill yn talu ymweliad â ni ar ddyddiau agoriad ein Capel newydd.

R. C. JONES.

## HEN DY-CWRDD Y NOTTAIS.

Yn gymmaint a bod Capel y Nottais wedi myned yn rhy fach ac yn rhy anaddas i ateb dybenion y gynnulleidfa, yr ydys wedi penderfynu ei dynu i lawr i'w ail-godi yn yr un fan, ar ddull fyddo'n cydweddu yn fwy â chwaeth yr oes bresenol; ond gan fod y rhan amlaf o'r gynnulleidfa o amgylchiadau isel, ac yn analluog i gyfranu fel y dymunent at y treuliau angenrheidiol, y maent dan orfod i appelio at haelioni a theimlad da eu cydgristionogion am gynnorthwy arianol i ddwyn y gwaith i ben. Mae amcan-gyfrif y draul at godi y capel yn nghyd ag ysgoldy yn £550, ac mae y gynnulleidfa wedi gwneyd i fyny yn eu plith eu hunain oddeutu £150. Yr ydys yn gobeithio y gellir agor y Capel newydd cyn diwedd y flwyddyn bresenol. Derbynir cyfraniadau gyda diolchgarwch gan y gweinidog—Y Parch. Titus Lloyd, Newton, Near Bridgend.

## PIGION O EMYNAU.

Yn awr yn barod, yr Ail Ran. Pris Ceiniog, neu Wyth Swllt y Cant.

D.S.—Bwriadwn ymosod o ddifrif ar y Llyfr Emynau yn ystod gwyliau'r haf. Mae rhwystrau annysgwyliadwy wedi codi yn ddiweddar, fel nas gallwn fyned yn mlaen â'r gwaith yn awr.

*Yn awr yn barod, Pris 3s. a 6ch., wedi ei rwymo yn hardd,*

AIL ARGRAFFIAD O

# TELYN DEWI,

SEF GWAITH PRYDYDDAWL Y PARCH. DAVID DAVIS,
GYNT O GASTELL-HYWEL, CEREDIGION.

Fel mae yn hyspys i lawer fod y Gwaith uchod allan o Brint er's blynyddau, a diamheu y bydd ymddangosiad yr Ail Argraffiad hwn yn hyfrydwch ac yn dderbyniol gan Feirdd a Llenorion Cymru. Y mae yn cynnwys llawer o ddarnau o'i waith nad oeddynt yn yr Argraffiad cyntaf—yn nghyd â Hanes ei Fywyd, a Darlun hardd o'r Awdwr.

Erfynir ar bawb a ewyllysiant gael copi o'r Gwaith uchod anfon eu henwau yn ddioed i'r cyhoeddwr, J. DAVIS, Argraffydd, Llanbedr.

THE CHURCH OF THE FIRST THREE CENTURIES; or Notices of the Lives and Opinions of some of the early Fathers, with special reference to the Doctrine of the Trinity, illustrating its late origin and gradual formation. By Alvan Lamson, D.D. . . . . With Notes by Ezra Abbot, D.D., LL.D., and Henry Ierson, M.A. London: British and Foreign Unitarian Association, 37, Norfolk Street, Strand, 1875. 482 pp.

Mae gan y Golygydd ychydig gopiau *(subscription copies)* o'r gwaith gwerthfawr uchod, ac y mae'n foddlon anfon copi yn ddidraul gyda'r *post* ar dderbyniad gwerth hanner coron o *stamps*. Ei bris gyda'r llyfr-werthwyr yw pum swllt.

### AT EIN DARLLENWYR.

Telerau.—Un copi, 3c., gyda'r post 3½.; ar dri chopi a rhagor telir y cludiad.

Anfoner mewn stamps neu order at—"Rev. W. James, B.A., 36, Gadlys Street, Aberdare."

☞ *Pob Archebion a Gohebiaethau i'w hanfon yn gyfaniedig,—*

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Mount Pleasant Garden,
ABERDARE.